# Y DINESYDD

Chwefror 2021 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 455




Christine James

**Yr holl ganlyniadau**
**ar dud. 9**



Efa Rowlands

**Teyrngedau**


**Mallt Anderson   tud.15**
**Yr Athro John Gwynfor Jones  tud. 17**
**Parchg Ddr Hugh Matthews tud. 9**
**Bethan Roberts tud.12**

# Y DINESYDD

**Golygyddion:**
**Eirian a Gwilym Dafydd**

***Golygydd Mawrth***
***Eiry Palfrey***

Cyfraniadau erbyn 25 Chwefror i:
eirypalfrey@gmail.com
2 Tŷ Sain Baruc, Clôs Highfield,
Heol y Parc, Y Barri, CF62 6NU

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Y DINESYDD A'R PANDEMIG

Ar ddechrau Cyfnod y Clo y llynedd fe benderfynodd pwyllgor y Dinesydd barhau i gyhoeddi'r papur a'i ddosbarthu ar-lein yn rhad ac am ddim i bawb. Rhoddwyd y rhifynnau misol hefyd ar wefan y Dinesydd ac ar blatfform Golwg, Bro_360.

Ar gais rhai oedd heb yr adnoddau digidol angenrheidiol, fe argraffwyd nifer o gopïau caled a'u dosbarthu â llaw. Diolch i'r tîm o ddosbarthwyr gwirfoddol. Gwerthfawrogwyd y gwasanaeth hwn yn fawr. Bydd tua 200 o rifynnau Chwefror a Mawrth yn cael eu dosbarthu yn yr un modd i'r rhai sydd eisoes wedi gwneud cais.

Mae ein tanysgrifwyr arferol wedi ymateb yn bositif iawn i'r sefyllfa; pawb wedi cytuno i'w tanysgrifiadau gael eu cyfrif fel rhodd am y flwyddyn 2020-21 – a nifer wedi anfon cyfraniadau ychwanegol. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth. Diolchwn hefyd i Eglwys Minny Street, Eglwys Salem, Treganna, a Chylch Cinio Cymry Caerdydd am eu rhoddion hael yn ystod y cyfnod hwn.

Mae ein diolch yn fawr hefyd i bawb sy wedi cyfrannu deunydd ar gyfer yr holl rifynnau. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i ansawdd y cynnwys.

**Beth am 2021-2022?**

Rhaid cymryd yn ganiataol na fydd pethau nôl i normal am gryn amser eto ac na fydd modd dosbarthu rhifynnau i ganolfannau fel y capeli a'r eglwysi a'r ysgolion a'r cymdeithasau fel o'r blaen.

Felly, am y flwyddyn 2021-22, gan ddechrau ym mis Ebrill, dyma'r drefn a'r tanysgrifiadau newydd a gytunwyd gan y pwyllgor. Gall ein darllenwyr ddewis un o'r ffyrdd canlynol i gael eu copi. (Gweler y ffurflen danysgrifio.)

Pris copi caled - **£1.20** (yn y siopau os byddant ar agor)

Tanysgrifiad am flwyddyn:

**£10** - derbyn copi pdf trwy e-bost

**£12 -** derbyn copi caled mewn canolfan (neu trwy law dosbarthwr lleol hyd nes y bydd y canolfannau lleol yn ail-agor)

**£18** – derbyn copi caled trwy'r post

Os ydych chi'n arfer derbyn eich copi caled mewn canolfan neu mewn cymdeithas, yna y tanysgrifiad i chi fydd £12 – ac fe drefnwn ni eich bod yn ei dderbyn trwy'r drws hyd nes y bydd y sefydliadau yn ailagor.

Mae'r 'gwasanaeth' hwn yn dibynnu ar wirfoddolwyr i ddosbarthu'n lleol. Os ydych chi'n teimlo y gallwch chi helpu i ddosbarthu i rai cartrefi yn eich ardal chi, yna byddai Arthur, ein Cydlynydd Dosbarthu, yn falch o glywed wrthoch chi. (Gweler ei fanylion cysylltu yn y golofn ar y chwith.)

Ar ran y pwyllgor, diolch i chi am gefnogi'r *Dinesydd*, a Blwyddyn Newydd Well i bawb.

*Bryan James*
*(Cadeirydd)*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd* ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Colofn G.R.



*"Yma yng Nghymru mae sawl problem yn wynebu ein gwlad fach ni."*

Cyfarchion cynnes atoch ddarllenwyr y golofn hon gan obeithio eich bod i gyd wedi llwyddo i gadw'n ddiogel a dihaint yn ystod y misoedd a aeth heibio. Os bu 2020 yn flwyddyn gythryblus ac anodd yn anffodus ymddengys bydd 2021 yr un mor gythryblus hefo'r firws felltith yn dal i deyrnasu er gwaethaf y ffaith y daw'r brechlynnau â rhywfaint o ryddhad i ni ymhen amser. Ond yn y cyfamser rhaid i ni aros yn ochelgar a dilyn y rheolau a byw mewn gobaith bod dyddiau gwell o'n blaenau.

Dros yr wythnosau diwethaf dan ni wedi gweld llawer o bobl ffôl ac anystyriol yn torri'r rheolau a phan daeth eira i fannau megis Eryri a Bannau Brycheiniog gwelwyd ugeiniau o bobl yn tyrru yno yn eu ceir i gerdded yr ardaloedd hyn. Bu'r heddlu yno yn dweud wrth bobl i fynd adre a chafwyd enghreifftiau o bobl wedi gyrru o Loegr i'r mannau hyn. Anhygoel!

Dwy'n siwr eich bod chi fel minnau wedi bod yn gegrwth yn gwylio'r hyn a ddigwyddodd yn Washington y mis diwethaf pan ymosododd dilynwyr Donald Trump ar Adeilad Cyngres y Wlad a chreu llanast ac anhrefn a pheryglu democratiaeth yr Unol Daleithiau. Odd yr hyn a ddigwyddodd yn fêl ar fysedd arweinwyr gwledydd fel Rwsia, Tseina, ac Iran. Rwan mae gwaith caled o flaen Joe Biden, yr Arlywydd newydd, i adfer enw da'r wlad yng ngolwg y byd.

Yma yng Nghymru mae sawl problem yn wynebu ein gwlad fach ni ac un ohonyn nhw ydy problem ail gartrefi a thai haf yn ein broydd harddaf a Chymreig ac mae hyn yn peryglu ein hiaith a'n diwylliant. Dydy hi ddim yn broblem unigryw i Gymru gan ei bod yn broblem hefyd yn Llydaw, Cernyw, Ardal y Llynnoedd ac Ynysoedd y Sianel. Mae'r sefyllfa waethaf yng Ngwynedd a Phenrhyn Llŷn yn arbennig ac mae pentre Abersoch dan warchae mewn ffordd gan fod estroniaid ariannog yn gallu fforddio prynu eiddo yna ar drael y boblogaeth gynhenid. Yn ddiweddar clywyd bod yr ysgol leol mewn perygl o gau gan mai dim ond deg o blant sy ynddi. Hefyd bu cwt nofio ar ymyl y traeth ar werth am gan mil, a thŷ a fu yn dŷ cyngor ar werth am bron bedwar can mil! Mae'r Senedd ym Mae Caerdydd yn ymwybodol o'r broblem ond araf ydy'r symud i geisio lleddfu'r broblem hon sy'n creu cymaint o ddicter a phoendod i'r boblogaeth gynhenid.

Cyn y Nadolig collwyd tri o gewri yn eu gwahanol feysydd a chyfeirio ydw i at Jan Morris, y newyddiadurwraig enwog, Emyr Humphreys, y llenor disglair a Diego Maradona, y seren bêl-droed. Ces i'r fraint o gyfarfod â Jan Morris unwaith pan on i'n byw a dysgu ym Mhatagonia. Un bore Sadwrn odd hi pan daeth sŵn curo ar ddrws fy nghartre yn Nhŷ Camwy yn y Gaiman a phwy odd yn sefyll yno ond y Parchg Arthur Meirion Roberts (odd yn gyfaill i Jan a'i gwraig) a Jan Morris. Gwahoddais i nhw i'r tŷ a buon ni'n sgwrsio uwchben paned o de. Ond yn anffodus oherwydd treigl y blynyddoedd methais yn lân a chofio am beth sgwrsion ni!

Yna, yn anuniongyrchol des i gysylltiad â Diego Maradona hefyd ym Mhatagonia pan on i ar fy ffordd i ymweld ag Esquel yn yr Andes o Drelew. Codais i docyn bws yn Nhrelew a ches i sedd wrth y ffenestr er mwyn edmygu'r golygfeydd ar fy siwrnai. Ond ar ôl eistedd ar y bws yn sydyn gwelais i glamp o wraig flonegog mewn crys-T yn anelu am y sedd wag wrth fy ochr! Suddodd fy nghalon!

Cyn eistedd dyma hi'n ymestyn i roi ei bag ar y rac uwch ein pennau ac er fy mawr syndod dyma'r crys-T yn codi gan ddatgelu tatŵ anferth Rhif 10 ar draws ei bol helaeth! Wnes i ddim deall arwyddocâd y tatŵ ar y pryd nes i mi holi rhywun ac wrth gwrs ces i wybod mai Rhif 10 odd ar grys Diego Maradona pan odd ar y cae pêl-droed!

Yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd y cyfyngiadau ar ein bywydau dwy'i wedi bod yn darllen tipyn o lyfrau ac yn eu plith llyfr Owen John Thomas *The Welsh Language in Cardiff* sy'n olrhain hanes yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ar hyd y canrifoedd gan orffen drwy adrodd hanes addysg Gymraeg yn y ddinas ers y ganrif ddiwethaf. Gallaf gymeradwyo'r llyfr i unrhyw un sy am wybod mwy am y sefyllfa ieithyddol yma.

Erbyn i'r rhifyn nesa o'r *Dinesydd* ymddangos byddwn wedi dathlu Gŵyl Ddewi a felly gobeithio eich bod chi wedi cofio geiriau'r bardd Eifion Wyn 'Gwisg Genhinen yn dy gap | a gwisg hi yn dy galon'!

Tan y tro nesa chwedl pobl Patagonia!

## CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

Ynghanol yr holl anhrefn a achoswyd gan y pandemig yn 2020, ni chynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd* ym mis Mehefin yn ôl yr arfer.

Cynhelir hwn nawr trwy gyfrwng Zoom nos Iau, 18 Chwefror, am 6.30 y.h.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r cyfarfod rhithiol hwn. Cewch adroddiad cryno ar hynt *Y Dinesydd* yn ystod y flwyddyn a chyfle i holi cwestiwn neu fynegi barn.

Er mwyn ymuno, anfonwch e-bost at Ceri Morgan, ceri33@btopenworld.com ac fe drefnith e eich bod yn derbyn y ddolen cyn y cyfarfod.

# Colofn Natur

## *"Denu adar i'r ardd"*



**Gethin Jenkins-Jones**

Gyda 2021 wedi hen gychwyn, dwi'n siwr ein bod i gyd yn obeithiol am flwyddyn mwy dymunol i ddod. Er bydd eleni yn debygol o fod rhywfaint yn well, y realiti yn y tymor byr yw y byddwn ni'n weddol gaeth i'n cartrefi am y tro. Dwi wedi penderfynu felly i ganolbwyntio'r mis hwn ar sut i fwynhau natur heb orfod teithio o gwbl. Mae'r bywyd gwyllt o'n hamgylch yn gallu'n helpu i ymdopi ag unrhyw ddiflastod, ac nid oes cyfnod gwell (na phwysicach) na'r gaeaf i ddenu ac i fwynhau adar yr ardd. Felly, sut mae mynd ati? Pa wahanol fwydydd gallwch ddarparu ar eu cyfer a pha rywogaethau maen nhw'n debygol o ddenu?













Cyhyd â bod gennych ardd o unrhyw faint mae'n bosib denu bywyd gwyllt. Y peth cyntaf i'w gofio yw bod adar yn hoff iawn o berthi a choed a all gynnig lloches iddynt, felly ceisiwch blannu rhai os oes gennych le. Am ychydig ar ôl symud i'n tŷ presennol yn 1999, a'r ardd yn gymharol brin o unrhyw blanhigion, prin iawn oedd yr adegau pan fyddwn yn gweld Adar y To, ond bellach, â llysdyfiant newydd wedi tyfu, dwi'n aml yn gweld dros ddeg ohonynt yn neidio rhwng y brigau. Gall yr ardd ddenu rhywogaethau prin a chyffrous hefyd. Un o fy atgofion cyntaf o fywyd gwyllt oedd ffeindio Llinos Bengoch yn yr ardd ar ddiwrnod gwlyb yn 2005. Aderyn coedwigoedd pinwydd yw hwn yn arferol, a dwi heb weld un arall o'r tŷ ers hynny! Dwi'n meddwl mai'r aderyn hwn oedd y sbarc a gyneuodd fy niddordeb mewn adar.

O ran bwyd, dwi'n argymell prynu calonnau blodau'r haul ar gyfer eich bwydwyr adar. Mae pincod yn hoff iawn ohonynt gan gynnwys y Nico, y Llinos Werdd a'r Ji-binc. Triawd hardd iawn i'w cael yn eich gardd. Yn ystod gaeafau caled 2009 a 2010 roeddwn yn aml yn gweld dros ugain o bob un ohonynt yn ddyddiol, yn ogystal â phincod mwy prin megis Pinc y Mynydd, Pila Gwyrdd a Bras y Cyrs. Gall calonnau blodau'r haul hefyd ddenu adar o deuluoedd eraill, megis Adar y To a thitŵod ac, os wnewch chi daflu ychydig ar lawr, efallai daw Robin Goch, Llwyd y Berth ac Ysguthan i fwydo arnynt.

Math arall o fwyd dwi'n hoff o gynnig yn y gaeaf yw afalau wedi'u torri'n hanner a'u taflu ar y gwair. Mae'r Aderyn Du a'r Fronfraith yn hoff iawn ohonynt, a gan eu bod yn adar digon cyffredin yn y ddinas, mae gennych siawns reit dda o'u denu i'ch gardd. O nawr tan y gwanwyn gallwch hefyd ddenu cwpl o rywogaethau eraill sy'n perthyn i'r un teulu a fydd wedi mudo yma o Ewrop. Mae'r Coch Dan Adain a'r Socan Eira yn ddau aderyn sy'n gaeafu ym Mhrydain yn eu miloedd. Tra bod y mwyafrif yn treulio'r gaeaf yng nghaeau cefn gwlad, bydd tywydd oer yn gorfodi rhai i fudo i ddinasoedd, lle byddant yn barod iawn i fwydo ar ffrwythau fel afalau. Atgofion arall o aeaf 2010 oedd gadael afalau yn y parc lleol a oedd yn llawn o'r adar hyn, cyn mynd am dro a dychwelyd tair awr yn ddiweddarach i weld yr afalau yn ddim ond plisgynnau o groen!

Dwi hefyd yn argymell eich bod yn prynu braster siwed. Mae teulu'r titŵod yn enwedig yn hoff iawn ohono, a gan eu bod yn aml yn chwilio am fwyd efo'i gilydd yn y gaeaf, mae'n bosib gweld y pedair rhywogaeth mwyaf cyffredin (Titw Tomos Las, Titw Mawr, Titw Penddu a'r Titw Cynffon Hir) yn bwydo arno. O bryd i'w gilydd gall siwed ddenu adar mwy o faint i'r ardd. Mae'r Drudwy yn hoff ohono ac, os ydych yn lwcus, gallwch hefyd ddenu Cnocell Fraith Fwyaf. Dim ond hanner dwsin o weithiau'r flwyddyn (os hynny!) dwi'n gweld un yn yr ardd, ond mae'n sypreis neis pob tro!

Bydd yr wythnosau o gyfyngiadau llym i ddod yn amser anodd i ni. Bydd hefyd yn amser caled i'n bywyd gwyllt, wrth iddynt frwydro i oroesi amodau anfaddeugar y gaeaf. Felly yn ogystal â helpu i achub bywydau gan aros gartref, beth am achub bywydau adar Caerdydd a'r Fro trwy gynnig ychydig o fwyd iddynt.

# Merched y Wawr Caerdydd

**Danteithion Nadolig yng nghwmni Nerys Howell**

Dathlwyd ein cyfarfod olaf am 2020 mewn steil! Cyd-greu coctel dan gyfarwyddyd Nerys Howells ac yna treulio orig ddifyr yn ei sipian tra'n gwylio Nerys yn creu danteithion bys a bawd melys a sawrus ar gyfer y Nadolig. Er mai rhithiol oedd y profiad bron na fedrem arogli'r bisgedi a'r cacennau bach oren ac almwn yn pobi a'r cnau yn rhostio! Gellir gweld y ryseitiau a llawer mwy yn ei llyfr coginio diweddaraf, *Bwyd Cymru yn ei Dymor,* sy ar gael yn siopau llyfrau Cymraeg y ddinas.



Ar ddiwedd blwyddyn atgoffodd Gwyneth, ein cadeirydd fod y flwyddyn wedi dod â hapusrwydd a heriau a'i bod wedi bod yn braf cael mwynhau cwmni ein gilydd drwy'r cyfan. Wrth iddi adrodd englyn am y Nadolig cawsom ein atgoffa o wir ystyr yr Ŵyl.



**Sgwrs gyda Manon Antoniazzi**

"Fedrwn ni ddim cymryd democratiaeth yn ganiataol," meddai Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc Senedd Cymru, wrth sôn am y cyfnod digynsail yma. Neges amserol ar ddechrau blwyddyn newydd. Wedi iddi ein tywys ar hyd llwybr difyr ei gyrfa hyd yma, gan osgoi datgelu os oedd cyfres *The Crown* yn debyg i'r realiti brofodd tra'n gweithio ym Mhalas St James, dyma drafod y cyfleoedd a'r heriau mewn cyfnod na welwyd ei fath o'r blaen yn hanes pob llywodraeth: cyfnod ble mae 'popeth wedi newid' oherwydd Covid.

Ond gwych oedd clywed na safodd Senedd Cymru yn llonydd ac iddi arwain yn fyd-eang drwy symud i senedd rithiol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn parhau. Bellach mae gwledydd eraill dros y byd yn troi at Gymru am help i wneud hyn. Mae'r ymrwymiad i seilwaith egwyddorol sydd yn hyrwyddo amrywiaeth, urddas a pharch gan herio anghyfiawnder, yn greiddiol i'r hyn sydd yn bwysig i Manon. Does dim amheuaeth bod hwn yn gyfnod heriol ond da deall bod ei chefndir gyda'r delyn a'i chariad at farddoniaeth Gymraeg ganoloesol bellach yn cynnig dihangfa iddi. A phwy fase'n meddwl bod Prif Weithredwr y Senedd yn darllen Dafydd ap Gwilym yn ei gwely bob nos er mwyn ymlacio!

## I'r Dr David Enoch ar ei ben blwydd yn 95, 23 Ionawr 2021

**Mae'n dymor y gaeaf,**
**Heb ddail ar y coed ;**
**Ond ifanc wyt ti**
**Fel y buost erioed ;**
**Daw'n wanwyn cyn hir,**
**Ac fe wyddom ni**
**Mai dal i flaguro**
**Y byddi di.**


**Robin Gwyndaf**

**Nodyn**

Newydd ei gyhoeddi yn Ionawr 2021 y mae 5ed argraffiad *Uncommon Psychiatric Syndromes*, un o gyfrolau niferus Dr David Enoch, y seiciatrydd enwog o Gaerdydd, ond sy'n enedigol o Ben-y-groes, sir Gaerfyrddin. Ystyrir y gyfrol hon yn un o glasuron y byd meddygol.

Yn y wasg hefyd y mae ei Hunangofiant Saesneg: *Enoch's Walk. 95 Not Out: Journey of a Psychiatrist* (Y Lolfa).

Fy mraint innau fu cael paratoi cyfrol Gymraeg i'w chyhoeddi eleni, os byw ac iach, mewn diwyg hardd, ac yn cynnwys dros 80 o luniau: *Meddyg y Galon Glwyfus. Gofal am Iechyd Meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch* (Cyhoeddiadau'r Gair). Yn ail ran y gyfrol hon cyflwynir portread llawn o'r meddyg ymroddedig sydd newydd ddathlu ei ben blwydd. Dymunwn iddo ef a'i deulu bob bendith. (R G)



*Llun: Stiwdio Richard Dutkowski*

# NEGES O GAERGRAWNT

## Lowri Haf Cooke yn holi Aled Charles

***Mae Aled Charles, sy'n wreiddiol o Barc y Rhath, yn wyddonydd yn Rhydychen. Mae e'n byw yng Nghaergrawnt gyda'i wraig Melanie a'u tri o blant, Alice a Carrie (sy'n efeilliaid 8 oed), ac Owen (sy'n 5 oed).***

**Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd yng Nghaergrawnt?**
Fel ar hyd a lled Prydain roedd achosion COVID-19 ar gynnydd yn ardal Caergrawnt cyn y Nadolig felly mae'r plant wedi bod i ffwrdd o'r ysgol ers hynny, ac ry' ni'n gweithio ac yn addysgu o gartre, fel yn achos miloedd o rieni eraill. Dy' ni ddim wedi bod yn teithio o gwbl - mae ymweld ag unrhywle 'prysur' erbyn hyn yn teimlo'n rhyfedd iawn – a gan ein bod yn byw mewn pentref bach y tu allan i Gaergrawnt, mae ynysu wedi bod yn eithaf hawdd.



**Sut wnaeth bywyd newid i chi yn ystod yr argyfwng?**
Ro'n i'n gweithio ym mhencadlys AstraZeneca yng Nghaergrawnt tan fis Rhagfyr (fel Rheolwr Ymchwil a Datblygu yn un o'r adrannau biofferyllol), ac fel gweithiwr allweddol fe wnes i barhau i weithio yn y labordy. Yn raddol, wrth ddod i arfer â, a deall y risgiau, daeth pellhau cymdeithasol a gwisgo masgiau yn y gweithle yn beth cyffredin. Fel mae nifer yn gwybod, bu cymorth AstraZeneca yn natblygiad y brechlyn ChAdOx1 (a rôl gwyddonwyr Caergrawnt wrth sicrhau'r datblygiad hwnnw) yn allweddol, ac roedd eu cyflawniad yn un aruthrol. Mae sgôp a graddfa'r ymdrech yn syfrdanol – symudwyd popeth i ffatrioedd niferus ar unwaith, proses gymhleth a fyddai wedi cymeryd blynyddoedd cyn hynny. Ac ar ben hynny, roedd nifer o'm cydweithwyr yn rhan o'r broses gefnogi i sefydlu a rheoli'r 'Lighthouse Laboratories' a grewyd ar gyfer profion COVID ar raddfa ddiwydiannol. Rôl fy labordy i oedd paratoi adweithyddion (*reagents*) allweddol ar gyfer cynllun profi gweithwyr y cwmni, ac fe wnaethon ni hefyd ddarparu cefnogaeth dechnegol ar gyfer datblygu therapïau gwrthgyrff (*antibodies*).

Roedd dysgu o adre yn heriol, ond rhwng gyrfaoedd y ddau ohonom (mae Melanie yn reolwr marchnata), roedden ni'n ffodus o allu rheoli ein hamser, a gan bod fy ngwaith innau yn y labordy roedd modd i mi fynd i'r gwaith yn gynnar neu weithio'n hwyr y nos er mwyn cyflawni popeth. Roedden ni hefyd yn andros o ffodus i gael gardd gefn – dwi'n teimlo dros gydweithwyr sy'n byw mewn fflatiau heb erddi, yn arbennig felly y rheiny â phlant.

Gyda Mam a Dad a fy mrawd Huw yng Nghaerdydd, fy chwaer Bethan ym Manceinion a ninnau yng Nghaergrawnt, roedd peidio â gallu gweld ein gilydd 'yn y cnawd' yn anodd iawn, a beth oedd yn anoddach fyth oedd bod fy nhad yn derbyn triniaeth canser. Bu technoleg o gymorth i ni gysylltu â'n gilydd, ond ar adeg mor boenus i'r teulu fe gollon ni allan ar fedru 'bod yno' ar gyfer Mam a Dad. Yn ffodus i ni gyd roedd Huw yn gefn i'r teulu wrth allu bod o gymorth wrth law i'n rhieni. Fe lwyddon ni i deithio i Gaerdydd ar ddiwedd y clo mawr cyntaf, ond eto roedd hynny'n anodd iawn wrth weld y newid a'r dirywiad yn iechyd Dad. Ac fe lwyddon ni i ddychwelyd i Gaerdydd ar gyfer dyddiau olaf fy nhad, a gafodd fod gartre, gyda ni yno, tan y diwedd. Fel y profodd nifer o bobol eraill trwy gydol y pandemig, roedd hyn yn anodd iawn. Mae gen i hefyd ffrind clòs a gollodd ei wraig, ac mae wedi bod yn anodd methu â chysuro'n gilydd.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod ar hyn o bryd?**
Ar ôl dechrau swydd newydd yn ddiweddar gyda chwmni *biotech* arall yn Rhydychen, mae'r patrwm dyddiol ychydig yn wahanol. Roeddwn i wedi bwriadu treulio ychydig ddyddiau yn Rhydychen bob wythnos ond fe newidiodd hynny gyda chlo mawr rhif 3 a'r amrywiad newydd, felly rydw i nawr yn treulio mwy o amser ar Microsoft Teams o gartre. Mae'r plant yn dal i dderbyn eu haddysg o gartre, ac mae fy ngwraig Melanie wedi ymgymryd â llawer o'r gwaith hwnnw, fel llawer o ferched ledled y wlad, ac rwy'n hynod ddiolchgar am hynny. Ar y cyfan, bydden i'n dweud nad yw ein bywydau wedi newid cymaint ers y clo mawr gwreiddiol, ac ar ôl gweld effaith COVID ar gydweithwyr, a'r goblygiadau tymor hir i bobol ifanc, rydyn ni wedi bod yn aros yn amyneddgar am y brechlyn.

**Beth yw dy farn am y sefyllfa ar hyn o bryd?**
Yn gyffredinol, rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobol ledled y wlad wedi gweithio'n dda i geisio rheoli'r pandemig. Ond rydw i wedi cael fy siomi gan Lywodraeth y DU; cafwyd negesuon cymysg parhaol ganddynt, a gormod o bwyslais ar sloganau ar draul manylion polisiau, gan arwain at daith ddrwg-enwog Dominic Cummings i Gastell Barnard. Roedd honno'n bilsen chwerw iawn i'w llyncu; gweithred gwbl hunanol gan unigolyn oedd ym meddu ar yr holl wybodaeth, ac a oedd yn gyfrifol am lunio polisi ehangach y wlad. Ar ôl hynny, roedd fel petai i'r holl aberthau a wnaethpwyd gan bobol ar hyd a lled y wlad fynd i ddifancoll, a diflannu hefyd wnaeth y teimlad ein bod ni'n 'gwneud hyn gyda'n gilydd'. Ond, o edrych o'r tu allan, rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n dda gyda'r grymoedd sydd ganddynt, ag ystyried rhwstredigaethau ehangach strwythur y DU. Yn hynny o beth, mae'n amlwg fod llywodraethau rhanbarthol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi arwain y ffordd yn aml, ac wedi canolbwyntio ar reoli'r feirws. Ond un peth wnaeth fy synnu i yng Nghymru oedd pa mor araf oedd yr awdurdodau i orfodi pobol i wisgo masgiau mewn mannau cyhoeddus.

**Beth am eich bywyd cartref, Aled, a sut mae'r plant wedi addasu i'r sefyllfa?**
Mae'r plant wedi addasu'n dda i'r holl newidiadau – ry' ni'n ffodus i gael tri o blant oedd yn medru chwarae â'i gilydd trwy gydol y pandemig. Mae nhw'n uned cryn dipyn mwy clòs erbyn hyn, ac mae'n ymddangos fod ganddyn nhw werthfawrogiad gwell nawr o'r 'pethau bychain', ond mae nhw'n amlwg yn colli chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol gyda'u ffrindiau. Ond a dweud y gwir, dydyn ni ddim wedi gorfod newid cymaint â hynny ar ein harferion blaenorol – roedd siopa ar-lein yn rhywbeth wnaethon ni gofleidio yn fuan wedi cael yr efeilliaid! Hefyd, gyda phlant ifanc a byw ymhell oddi wrth deulu a ffrindiau, roedden ni eisioes yn gwneud defnydd o Skype ar gyfer sgwrsio.

**Fel gwyddonydd, beth yw'ch barn chi am y brechlyn?**
Rwy'n teimlo'n hynod obeithiol am y brechlyn. Fe wnaeth sefydliadau fel CEPI, PATH a phrosiectau llywodraethol ehangach ZAPI (UE) a DARPA (UDA) baratoi'r sector fferyllol yn dda ar gyfer argyfwng o'r fath. Ac mae'r amrywiaeth o dechnolegau a ddefnyddiwyd i dargedu'r firws yn ddiddorol hefyd, ac yn cynnig mewnwelediad i therapïau'r dyfodol i gwmnïau *biotech* eraill fel Moderna. Mae'r campau gwyddonol a gyflawnwyd yn ystod y pandemig wedi bod yn syfrdanol, o sefydlu labordai gan ddefnyddio llawer iawn o awtomeiddio, i'r ffyrdd newydd o ddatblygu brechlynnau a thriniaethau gwrthgyrff gan ddefnyddio dealltwriaeth o gynnyrch a phroses i fyrhau 'llinellau amser' a fyddai fel arfer yn cymryd blynyddoedd. Mae'r gwyddonwyr, y peirianwyr a'r holl weithwyr ategol wedi gweithio'n ddiflino i gyflawni hyn. Mae hyd yn oed pethau bychain fel creu fideos addysgol i helpu plant i ddeall beth sy'n digwydd wedi sicrhau gwelliannau.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf? Neu a fedrwch chi ddweud bod rhywbeth 'da' wedi dod o hyn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu dros y flwyddyn diwethaf sy'n bwysig?**
Y golled fwyaf i mi, yn bersonol, oedd methu â threulio cymaint o amser gyda Mam a Dad cyn i'm tad farw. Wedi dweud hynny, roedd fy nhad (a fy mam) yn annibynnol iawn, a mynodd Dad fod o gymorth i eraill tan y diwedd. Ac fel rhieni, fe lwyddon ni i gael y plant i 'gyfrannu' wrth helpu coginio'n rheolaidd, er i'n hawch i arbrofi a dysgu pethau newydd gael ei lethu braidd gan bwysau addysgu'r plant o gartre! Ond ry' ni hefyd wedi bod yn pobi'n llawer amlach, a gyda 'coeliag' yn y tŷ, ry' ni wedi llwyddo i bobi bara a chacennau heb glwten blasus iawn! Un uchafbwynt 'cymdeithasol' sydd wedi dod o'r pandemig yw'r sesiynau Zoom gyda ffrindiau ledled y wlad. Mae'n siwr fy mod i wedi gweld mwy o fy ffrindiau ysgol (Ysgol y Wern a Glantaf) yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf nag ers blynyddoedd, sydd wedi bod yn wych. Braf yw gallu gweld ein gilydd yn amlach. Mae hefyd yn ymddangos i mi fod y pandemig wedi denu cymunedau ynghyd, rhai oedd ar chwâl cyn hynny oherwydd brwydrau mewnol Brexit. Ac roedd yn wych i weld gwerthfawrogiad o gyfraniad gweithwyr allweddol ym mhob rhan o gymdeithas. Wrth i 'normalrwydd' bywyd raddol ddychwelyd, dwi'n gobeithio mai parhau wnaiff ein cefnogaeth i'r bobol hyn, ac y caiff eu haberthion eu nodi a'u cofio.

**Oes gyda chi neges i rannu gyda darllenwyr *Y Dinesydd* – neu unrhyw gyngor penodol?**
Arhoswch gartref a gwisgwch fasgiau mewn mannau cyhoeddus! Mae'r brechlyn ar y gorwel. Wrth ystyried ymdrechion miliynau o bobol i ddal, rheoli a thrin y firws, ac os allwn ni fod yn amyneddgar wrth ddisgwyl i'r ymdrechion hyn weithio, mae na obaith y cawn ni ddechrau mwynhau'r dyfodol gyda'n gilydd.

## Aelwyd Hamdden

Caiff aelodau'r Aelwyd bleser a bendith wrth ymuno â'i gilydd ar Zoom i gynnal cyfarfodydd er bod galwadau ffôn yn dderbyniol hefyd. Gwerthfawrogir trefniant y Parchedig Allan Pickard gyda'r dechnoleg angenrheidiol.



Ar ddydd Gwener, 11 Rhagfyr, dathlwyd y Nadolig – gyda'r aelodau'n cyflwyno carolau, darlleniadau a barddoniaeth bwrpasol o'u haelwydydd.



Ar 8 Ionawr croesawyd y Parchedig R. Alun Evans. Testun ei anerchiad oedd Y Plygain. O'i blentyndod, bu'n gyfarwydd iawn gyda'r cyfrwng hwn wrth fyw ac addoli yn ardal Llanbrynmair ac yn ehangach yn Siroedd Meirionnydd a Threfaldwyn. Eglurodd darddiad a phwrpas gwreiddiol y gwasanaethau. Cyflwynodd engreifftiau o'r cantorion a'r gerddoriaeth ddi-gyfeiliant. Diolchwyd iddo am greu darluniau diddorol sy'n elfen bwysig yn hanes Cymru, ac sy'n amlwg yn agos at ei galon fel Cymro a gwladgarwr da.

Rhisiart Arwel, y darlledwr a'r cerddor, oedd y gwestai ar 22 Ionawr. Cyflwynodd ddwy elfen a fu yn bwysig drwy ei yrfa. Mae'n diwtor Cymraeg i ddysgwyr ers blynyddoedd ac wedi cael cyfle i astudio tyfiant y gwaith anhygoel a gyflawnir dros yr iaith. Soniodd fod 40% yn fwy yn derbyn hyfforddiant ar y cyfryngau digidol ymhob rhan o'r byd, e.e. Ffrainc, Yr Almaen, gwlad Pwyl, Rwsia a llawer o wledydd eraill. Deallir fod 1.6 miliwn yn astudio'r iaith yn gyson ar Duolingo.

Derbyniodd Rhisiart hyfforddiant yn ifanc ar y gitar glasurol yng Ngholeg y Gogledd, Manceinion, Madrid a Llundain a pherfformio yn eang. Mae ei dalent chwarae i'w glywed ar ei gryno ddisg *Etifeddiaeth* gan gyfansoddwyr enwog a'i weithiau ef ei hun. Clywodd yr aelodau ddarn o'r enw 'Pader' er côf am ei fam, a'i drefniant ef o'r emyn-dôn 'Llef'. Diolchwyd iddo am brynhawn addysgol a difyr.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Zoom dydd Gwener, 5 Chwefror am 2 o'r gloch.

# Cymrodorion Y Barri

**Nodau'r Nadolig gyda Mared Furnham**

Daeth criw da ohonom at ein gilydd yn rhithiol ar 15 Rhagfyr i fwyhau noson o gerddoriaeth Nadoligaidd yng nghwmni Mared Furnham. Mae Mared yn aelod o deulu cerddorol a thalentog y Whelans o Gaer Delyn, Sain Hilari, felly roedd gwledd o'n blaenau.

Cawsom ein tywys trwy yrfa gerddorol Mared o'r Ysgol Feithrin i'r dydd heddiw gan glywed traciau personol a masnachol o bob cyfnod o'i bywyd (diolch i'w mab Dafydd sy'n *whiz-kid* gyda'r cyfrifiadur).

Roedd Mared wedi paratoi taflen o garolau, a thaflen geirfa i'r 'Siaradwyr Newydd' i'w helpu i ddilyn y sgwrs a'r carolau; a chawsom ninnau ymuno yn y gân, ar ôl gwasgu'r botwm 'mudo' wrth gwrs!

Roedd y dewis o gerddoriaeth yn eang ac eclectig, o garol syml 'Preseb Bethlehem' i waith Benjamin Britten, a phob peth rhyngddynt.

Soniodd Mared am ei Mamgu (Ellen Whelan mam ei thad), a aeth fel myfyriwr i'r Guildhall yn Llundain yn 14eg oed, ac aros yno am 7 mlynedd gan ei bod wedi derbyn ysgoloriaeth bob blwyddyn. Cofiodd fel roedd hi'n ymarfer y piano am awr bob dydd hyd yn oed yn ei henaint.

Clywsom y teulu yn canu'r garol Blygain 'Ar Gyfer heddiw'r bore' ar ddydd Nadolig; ac fel y llwyddodd y teulu i sicrhau bod yr Offeren yn Gymraeg yn Eglwys Cadog Sant y Bontfaen. Mae cefndir Carys, mam Mared wedi ei wreiddio yn nhraddodiad Bedyddwyr Cwm Rhondda, a thrwy hynny dysgodd y teulu, er yn Gatholigion, emynau a charolau ymneulltuol Cymru.

Clywsom lais pur Aled Jones, ddoe a heddiw, a chôr Cantemus y mae Mared yn aelod ohono, a llawer, llawer mwy – gan ein paratoi yn llon tuag at y Nadolig er gwaetha bygythiad du y feirws. Heb os, roedd hon yn noson i'w chofio.

Cawsom gwis hwyliog ar 19 Ionawr ac edrychwn ymlaen at ddathlu pob agwedd o serch yng nghwmni Ann Jones ar 16 Chwefror.

## Addysg Gymraeg – Rhifau Cyntaf 2021 a Datblygiadau ym Mynyddbychan

Fis Rhagfyr mabwysiadodd Cabinet Cyngor Caerdydd gynllun i arwain at helaethu Ysgol Mynyddbychan i dderbyn 45 disgybl bob blwyddyn yn lle'r 30 presennol, nifer sydd wedi bod yn annigonol ers 2014 gyda 10 i 15 plentyn sydd fel arfer yn byw yn y Mynyddbychan rhwng Rhodfa'r Dwyrain a Heathwood Road a felly tu fewn i dalgylch yr Ysgol yn cael eu troi i ffwrdd yn flynyddol. Mae RhAG wedi pwyso am helaethu'r ysgol ers 2014 gan dderbyn y byddai hyn yn golygu ymestyn ar safle arall am fod y safle presennol yn rhy gyfyng i ganiatau adeiladu ychwanegol. Yn 2018 roedd £30M ar gael ar draws Cymru i gael ei rannu rhwng y 22 cyngor tuag at gynlluniau lleol i hyrwyddo Addysg Gymraeg a gofynnodd y sir i'r Fforwm Addysg Gymraeg beth fyddent hwy yn dewis fel prosiect i ddefnyddio cyfran Caerdydd o'r swm. Ateb y Fforwm ar awgrym RhAG oedd cynllun i helaethu Mynyddbychan a fe gafwyd y swm o £3M at y pwrpas hwn.

Yn anffodus bu gostyngiad yn y niferoedd yn dewis addysg Gymraeg ar draws Caerdydd erbyn Medi 2019, felly ni symudodd y sir ymlaen i weithredu ar gynllun i helaethu Mynyddbychan nes digwyddodd y twf annisgwyl o fawr erbyn gwanwyn 2020 a arweiniodd at 45 cais am le yno i gyd gan blant yn byw yn y dalgylch. Cytunodd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor, i ddatblygu cynllun i helaethu'r Ysgol fel digwyddodd fis Rhagfyr.

Mae'r cynllun wedi gwneud arolwg o'r 3 ysgol cyfrwng Saesneg sy'n ffinio â thalgylch Mynyddbychan (Albany Road, Gladstone ac Allensbank). Does dim un yn llawn ond Allensbank sy â'r niferoedd lleiaf – 185 disgybl mewn adeiladau a all dderbyn 420 ac yn derbyn nifer llai bob blwyddyn, 17 yn y flwyddyn gyfredol i lenwi 45 lle ar gael. Allensbank hefyd sydd agosaf at Mynyddbychan (rhyw 0.5 milltir i ffwrdd) a wedi'i lleoli mewn 2 adeilad sef yr hen Ysgol Iau ac Ysgol y Babanod ar un safle. Cynllun y sir yw i neilltuo darn anhysbys o'r adeiladau hyn i Ysgol Mynyddbychan i alluogi'r Ysgol Gymraeg i dderbyn 45 plentyn y flwyddyn a'u rhannu rhwng y ddau safle. Mae cynllun y sir yn rhagweld y bydd rhaid helaethu eto yn y dyfodol fel y bydd Mynyddbychan yn derbyn dwy ffrwd (60) y flwyddyn. Mae'r cynllun yn ardderchog ac eithrio ei fod yn golygu cynnal yr Ysgol ar ddau safle yn barhaol a hefyd ni fydd yn weithredol tan 2022.

Bu trafodaeth ar y cynllun yng nghyfarfod Ionawr y Fforwm a fe gafwyd sicrwydd pe byddai galw am fwy na 30 lle Fedi nesaf fe fyddai'r sir yn fodlon i'r Ysgol dderbyn dros 30 plentyn tu fewn i'r adeilad presennol am un flwyddyn (fel sy'n bosibl).

Yn y Fforwm cafwyd braslun o rifau'r ceisiadau am le yn y sector uwchradd eleni. Cyfanswm y ceisiadau am y 630 lle yw 617 wedi'u rhannu rhwng Bro Edern (161/180), Glantaf (247/240) a Phlasmawr (209/210). Felly bydd rhaid gwrthod 7 cais yng Nglantaf ond mae modd derbyn y 7 i Fro Edern. Yn amlwg bydd rhaid helaethu'r ddarpariaeth uwchradd yn fuan.

Cyfanswm y mynediadau cynradd Fedi diwethaf oedd 779 sef 26 ffrwd. Eleni beth sydd ar gael yw cyfanswm y nifer sy wedi nodi addysg Gymraeg fel eu dewis cyntaf sef 680, gostyngiad o bron 100 ar gyfanswm terfynol llynedd. Ni chynhwysir yn y 680 y ceisiadau hwyr sy'n dod bob blwyddyn nac ychwaith nifer y rhai sy'n gosod addysg Gymraeg yn ail neu drydydd dewis, Dim ond un ysgol oedd yn dangos ceisiadau niferus dros yr SAN sef Nant Caerau gyda 40 cais am y 30 lle. Dim ond un cais dros y terfyn a welwyd ym Melingruffydd, Y Wern a Threganna. Roedd 34 cais am y 30 lle ym Mynyddbychan. Roedd y 12 ysgol arall i gyd yn gallu ateb y galw ar hyn o bryd ond fe all hyn newid.

Ni fydd ysgol newydd Plasdwr yn agor cyn 2023 yn lle 2022 a hyn yn sgil effaith Covid ar ddatblygu yn yr ardal. Nid oes symud ar y cynlluniau i helaethu ysgolion Nant Caerau a Phenypil er bod y galw am le yn Nant Caerau yn parhau yn uwch na'r ddarpariaeth ond mae llefydd gwag yng Nghoed-y-gof sy'n ffinio ar ddalgylch Nant Caerau.

*Michael Jones*

## Y Parchg Ddr D. Hugh Matthews
## 1936 - 2020



Ar ôl degawd o frwydro yn erbyn aflwydd cancr, bu farw Daniel Hugh Matthews mewn ffydd y byddai'n cyfarfod â'i Arglwydd ac yn rhannu cwmni gyda hen ffrindiau, ac yn arbennig ei gymar hoff – Verina. Aeth o un llawdriniaeth i'r llall, gan sylweddoli mai camau ar y daith oedd pob un, ac yn falch o gwmni ei feibion a'i gyfeillion yn y cyfnod olaf hwn.

Ganwyd ef yn Nhreboeth, rhwng Treforus ac Abertawe, ac roedd yn ymwybodol mai ei dad-cu oedd un o'r glöwyr a sefydlodd Gwrdd Gweddi tan-ddaear yn y pwll lleol. Roedd hefyd yn cofio bwrlwm yr eglwys yng Nghaersalem Newydd, ac yn ddiolchgar am y fagwraeth ysbrydol a gafodd yno. Ategai hyn at ei werthfawrogiad o'i gartref ac roedd wedi ymwreiddio'n llwyr yn niwylliant y fro. Ymdeimlodd â'r alwad ddwyfol i'r weinidogaeth, a'i harweiniodd i Goleg y Bedyddwyr Bangor, a CPC Bangor. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar dair o eglwysi'r Bedyddwyr yng nghylch Llanbedr Pont Steffan, a phriodi Verina, ei gymar hoff o ardal Abertawe. Roedd ganddo gysylltiad agos gydag ardal ei gartref gydol oes, ac hefyd gyda bro Llanbedr Pont Steffan, lle ganwyd ei ddau fab, Tegid a Gethin. Ymhen y rhawg, derbyniodd wahoddiad Eglwys y Bedyddwyr yn Heol y Castell, Llundain, ac yno profodd ei hyn fel pregethwr â'i wreiddioldeb ffres yn cynnig efengyl gyfoes a pherthnasol i'r eglwys. Mwynhaodd ei gyfnod cyfoethog yn Llundain, ond roedd yn aeddfed i ddychwelyd i Gymru fel darlithydd yng Ngholeg y Bedyddwyr yn Heol Richmond, Caerdydd. Cyn dydd ei ymddeoliad, roedd wedi rhoi cyfnod o wasanaeth fel prifathro hefyd. Bellach roedd wedi derbyn gradd doethur er nad oedd am arddangos ei allu yng ngŵydd eraill chwaith. Mwynhaodd y fraint o dywys y myfyrwyr a'u meithrin ar eu taith, a'u cefnogi fel myfyrwyr a gweinidogion. Bu'n aelod gwerthfawr yn y Tabernacl, gan aros yn y sedd gefn, heb geisio amharu ar fwrlwm amrywiol yr eglwys, ond wrth ei fodd yn cynnal dosbarthiadau Beiblaidd, ac yn mynychu grŵp trafod yr ifanc. Fel yn Llanbedr ac yn Llundain, ymgartrefodd yn naturiol yng Nghaerdydd a mwynhau'r ddinas. Roedd yn Gymro twymgalon, yn academydd naturiol ac yn llawn ffydd ym mherson Iesu. Diolch am y fraint o'i adnabod ac o brofi o'i gyfeillgarwch a'i gefnogaeth.


*Denzil John*

## Cymrodorion Caerdydd

Fe agorwyd y tymor newydd ar Zoom nos Wener 5 Ionawr. Dan yr amgylchiadau, nid oedd yn bosibl i'r Llywydd ymddeoledig, R. Alun Evans, urddo Alwyn Evans, y Llywydd newydd, gyda chadwyn ei swydd.

Cyn trosglwyddo'r awenau i'w olynydd, talodd Alun deyrnged i'n diweddar Lywydd Anrhydeddus, Yr Athro John Gwynfor Jones. Fel academydd, meddai, gellid ei gyfrif ymhlith haneswyr amlycaf Cymru. Rhoddodd wasanaeth clodwiw i'w eglwys fel blaenor, pregethwr a Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bu'n aelod ffyddlon o'r Cymrodorion, ac yn 1985, ar achlysur ein canmlwyddiant, cyhoeddodd hanes y gymdeithas, *Y Ganrif Gyntaf: Hanes Cymrodorion Caerdydd 1885-1985*.

Ym mlwyddyn canmlwyddiant y Cymrodorion, ein Llywydd oedd Mrs Susie Evans, mam Alwyn, a mater o falchder iddo, meddai, oedd cael ei dilyn yn y swydd. Y teitl a ddewisodd i'w araith oedd, 'Beth yw Cymro/Cymraes?'



***Alwyn Evans yn annerch y Cymrodorion ar Zoom.***

Dechreuodd gyda dyfyniad o gofnod am sefydlu'r Cymrodorion ym mis Tachwedd 1885 a gyfeiriai at yr awydd i sefydlu cymdeithas ar gyfer *'the real Welshmen – the Welsh speaking Welshmen'*.

Y cwestiwn a osododd Alwyn i ni ei ystyried oedd, sut fyddem ni heddiw yn diffinio'r *'real Welsh'*? Ni chafodd sylfaenwyr y Cymrodorion broblem gyda chyfyngu'r diffiniad i'r sawl a fedrai'r iaith Gymraeg, ond prin iawn yw'r nifer ohonom fyddai'n hapus i wneud hynny heddiw. Serch hynny, meddai Alwyn, yn yr is-ymwybod deil rhai rhagdybiaethau i lechu. Er enghraifft, y dybiaeth fod pob Cymro a Chymraes yn wyn eu croen.

Cyflwynodd Alwyn hanes nifer o bobl nad oeddynt yn wyn eu croen ond a ystyrient eu hunain yn Gymry i'r carn. Un Cymro y dewisodd Alwyn son amdano oedd y meddyg llygaid adnabyddus, y diweddar Hemant Mehta. Yr oedd yn Hindŵ, ond mynegodd ei Gymreictod drwy orchmyn fod ei lwch i'w wasgaru, nid ar lan afon Ganges, yn ôl arfer ei grefydd, ond ar lan afon Hafren.

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021

**Y Gadair: *Ffenest***

**Mair o'r ffenest**

*yn Ysbyty Cwm Rhondda*

O'r ffenest, cawn wylio gyda'n gilydd
geir yn dringo rhiw Pen-rhys,
pererinion un prynhawn o haf
yn araf lusgo, fesul hwb a gêr,
i fyny'r llethr anfaddeuol.

O'r fan hon, ni welwn faint
sy'n oedi tua'r topiau llwm a'r tai
i fwyta'u *chips* neu hufen iâ
o'r fan; na faint sy'n mentro heibio i
adfael muriau cred at oes a fu – at
Fair,

i olrhain rhifau'i bri a'i braint
â'u bys mewn gwyrthiau concrid,
y baban yn ei breichiau byth
yn disgwyl rhith o gusan –
cyn rhuthro 'nôl i waelod cwm
ac annibendod byw
heb fendith.

Ni welant hwy – y ceir na Mair –
nyni ein dwy'n eu gwylio gyda'n
gilydd
o'r ffenest.

*

**Mam o'r ffynnon**

Taro llwybr union trwy'r rhedyn,
trwy'r adlodd o bacedi creision,
caniau *coke* – a gwaeth –
yn y gwair hir,
at dŷ'r ffynnon;
cael clo a reilins sinig
rhyngof i a'r dŵr
sy'n dal i lenwi'r cafn dan-do.

Pererindod od yw hon.
a'm pocedi'n Brotestannaidd
wag o roddion: dim aur nac arian
na phileri cwyr i Fair
(a gymerai gerdyn debyd?);
ac mae'n rhy hwyr (o sawl canrif)
i geisio credyd trwy gyrchu
yma ar fy ngliniau –
pe credwn, wir, bod gwerth
yn hynny.

Ond mae i'r lle hwn ryw hud
uwch culni'r cwm, uwch toiau'r tai
a phigiadau cydwybod
goleuadau diwetydd,
sy'n fy nhynnu ato'n gyson
i ymlonyddu. A heno,
ar awr ymweld,
gwn am un sydd â'i ffydd
mewn ffenest i'm dwyn i ati.

Rwy'n codi llaw amhosib ar Mam
o dŷ'r ffynnon diffenest,
gan droi i ddringo'n ôl trwy'r rhedyn,
trwy'r gwair sych, a chynnig
deigryn poeth i Fair wrth basio –
cyn prynu hufen iâ o'r fan
sydd ar fin cau.

*Christine James*

---

**Tlws yr Ifanc: *Cylchoedd***

"Dwy blaned sy'n rhwym i'w cylchau;
chlywan' nhw mo'i gilydd fyth."

Dwi di licio fo ers hir wan. Tua dwy flynadd â deud y gwir. Dwn i'm be ydio amdany fo sy'n fy nennu fi aty fo, dio ddim yn union be sw'n i fel arfar yn mynd am de! Dim i ddeud bod o ddim yn ddel. Mae o'n rili del. Ma genny fo ffordd, ffordd o fod, y ffordd mae o'n gallu siarad efo chdi a neud i chdi deimlo fel bod na ddim byd arall o bwys, dim ond y geiria, y sgwrsio sy'n llenwi'r gwacter rhygtha chdi a fo. Mae o'n glyfar. Neith o sbio arna chdi, i fyw dy lygad di, plannu i lygad glas yn ddwfn i berfeddion dy lygad di. Mae o'n neud i chdi deimlo'n noeth bron, yn feddyliol, ti'n gwbod? Fel tasa fo'n gallu gweld dy holl feddylia di, fel tasa fo'n dy ddeall di. Ond mae o fel na efo pawb ma' siwr. Sna'm byd gwahanol amdana fi.

Ma na rwbath gwahanol amdani hi. Ma hi'n rhyw fath o hawlio dy sylw di, ond dim mewn ffordd hunanol, â deud y gwir dwi'm yn meddwl bo hi'n gwbod bod hi'n neud o. Ti'n gallu deud o'i cherddediad hi a'r ffordd ma hi'n dal 'i hun bod ganddi hyder gwylaidd a bod barn pobl arall ohoni, prin yn cyfarch 'i chlustia hi. Dwi'n licio hyna. Mae fel tasa'i phersonoliaeth cariadus a thynner yn tywynnu o'i chrombil, a'i gwên ddireidus hi'n rhagflas o'i chwerthyniad heintus. Ei llygaid. Mae nhw'n groesawgar. Yn gefnfor o brofiada a theimlada sy'n dyfnhau, ddydd ar ôl dydd. Ma 'na rhyw dinc o ddrygioni yn perthyn iddi 'fyd. A'i chorff hi. Ei chorff duwiesol yn herio, yn mynnu sylw'r hogia i gyd. Tua dwy flynadd yn ôl nath hi fynnu'n sylw i gynta. Dwi di licio hi ers hyna.

"Hei!"

"Haia"

"Ti'n oce?"

"Grêt diolch. Ti?"

"Ia, iawn diolch!"

(Ma 'na eiliad o dawelwch anghyfforddus)

"'Sgen ti ddwrnod prysur heddiw?"

"Oes ma gennai ddwrnod llawn, dim un gwers rydd cofia! Be amdan na chdi?"

"Argol. Dwi'n teimlo bechod drosta chdi! Mond dwy wers sgenna fi."

"Tisho swap?" (Ma'r ddau yn chwerthin)

"Aha dwi'm yn siwr am hyna de!"

(Ma'r ddau'n dal i chwerthin cyn i dawelwch ddod rhyngthynt unwaith eto. Ma nhw'n rhannu edrychiad. Ma'n amwg bod y ddau'n rhannu'r un ysfa. Yr ysfa i jyst bod yng nghwmni ei gilydd. I rannu'i meddylia a'u teimlada efo'i gilydd. Bod yn agos. Daw ton o gydnabyddiaeth dros y ddau wrth i'r gwacter rhwng eu llygaid lenwi â llith o deimladau ac emosiynau, ac am eiliad cama'r ddau i'r dyfodol a chânt gip olwg o botential blodeuog, ddi-ffin eu perthynas, petai nhw ond yn cyfaddef eu teimadau. Daw sgrech undonog y gloch i gipio'r ddau yn ôl i'r foment. Wrth i'r disgyblion o'u hamgylch ddechrau cynnoni a chychwyn i'w gwesi, celu wna dewrder y ddau unwaith eto wrth ffarwelio)

"Well i mi fynd"

"Welai di!"

"Welai di!"

*Efa Rowlands*

# Holl ganlyniadau'r Eisteddfod

## Barddoniaeth

**Limrig:**
***Wrth fyned am dro lawr i'r afon***
1. Megan Richards

**Englyn: *Mynydd***
1. Emlyn Williams
2. Martin Huws
3. Emlyn Williams

**Telyneg: *Bwriad***
1. Judith Morris
2. John Meurig Edwards
3. John Meurig Edwards

**Y Gadair: *Ffenest***
1. Christine James
2. Rhys Powys
3. Eirian Dafydd / Terwyn Tomos

**Barddoniaeth y Dysgwyr: *Nos***
1. Marie Sian David-Jones
2. Jeane Trevelyan

**Barddoniaeth Bl. 2-4: *Lliwiau***
1. Nel Martha Williams
2. Esyllt Gwyn Gruffudd

**Barddoniaeth Bl. 7-9: *Lleisiau***
1. Myfi Morris
2. Mali Newis
3. Eilian Owen

**Barddoniaeth Bl. 10-13: *Ffrind / Cyfaill***
1. Tesni Elen Peers

## Llenyddiaeth

**Llên Micro: *Adduned***
1. Martin Huws
2. Heledd Ann Roberts / Martin Huws
3. Martin Huws / Martin Huws

**Adolygiad o unrhyw gyfrol Gymraeg**
1. John Meurig Edwards
2. Manon Elin
3. Manon Elin

**Darn o ryddiaith: *Aur***
**1.** Ifan Roberts

**Rhyddiaith Bl 2-4: *Heulwen***
1. Carys Thomas-Evans

**Rhyddiaith Bl. 5-6: *Môr***
1. Elen Thomas-Evans

**Rhyddiaith Bl. 7-9: *Teulu***
1. Lleucu-Haf Thomas

**Rhyddiaith Bl. 10-13: *Sibrydion***
1. Moli Lyons
2. Fflur Bowen / Tesni Elen Peers

**Tlws yr ifanc: *Cylchoedd***
1. Efa Rowlands

## Ffotograffiaeth

**Oedran Cynradd: *Golau***
1. Rhodri Davies
2. Tiago Cantero Warren
3. Macsen Martins-Hughes

**Oedran Uwchradd: *Golau***
1. Sioned Mair Thomas

**Agored: *Golau***
1. Dafydd Griffiths
2. Julia Davage
3. Lowri Wyn Bulman

# Rheinallt Armon Thomas

## enillydd gwobr Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru 2020

*Mae'r wobr flynyddol arbennig hon, sydd wedi cael ei chyflwyno ers dros ddegawd bellach yn cydnabod cyfraniad oes i'r byd cyhoeddi llyfrau Cymraeg. Rheinallt Thomas a dderbyniodd y tlws yn 2020.*

Ganwyd Rheinallt yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog ac fe'i addysgwyd yn Aberfan ac Ysgol Ramadeg Dinbych. Yn Ninbych y cafodd y blas cyntaf ar lenyddiaeth trwy olygu cylchgrawn yr ysgol, *Y Bych.*

Tra'n ddarlithydd addysg grefyddol (AG) yn y Coleg Normal y gwelodd yr angen am ddeunyddiau AG ac yn enwedig felly yn y Gymraeg. O ganlyniad cyhoeddwyd *Arweiniad Darluniadol i'r Testament Newydd* mewn cydweithrediad â Lion Publishing a *Blodeugerdd o Gerddi Crefyddol a Gweddïau i Blant* mewn cyd weithrediad â Gwasg Christopher Davies.

Wedi'i apwyntio yn Gyfarwyddwr cyntaf y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol yn Mhrifysgol Bangor sefydlodd wasg ar gyfer cyhoeddiadau AG a chyhoeddwyd llyfrau a phecynnau niferus i gyflwyno crefydd i blant. Cafodd un o'r llyfrau *Cristion ydw I* ei ddyfarnu fel enillydd Gwobr Tir na Nog yn 1993. Bu'n brif olygydd y cylchgrawn Newyddion Addysg Grefyddol o 1981 hyd 2001.

Bu gwaith yr Ysgol Sul yn hynod bwysig i Rheinallt ar hyd y blynyddoedd ac wedi penodiad Aled Davies i'r Cyngor Ysgolion Sul yn 1989 sefydlwyd Cyhoeddiadau'r Gair yn 1992. Rheinallt fu'n gadeirydd Cyhoeddiadau'r Gair o'r dechrau ac ef a wahoddwyd i baratoi cyfrol *O'r dechrau hyd heddiw* - sy'n nodi 50 mlynedd Cyngor Ysgolion Sul yn 2016. Mae hefyd wedi llywio cyhoeddiadau Mudiad Addysg Grefyddol Cymru ers 2000 a chyhoeddwyd Syniadau AG yn Gymraeg ac RE Ideas yn Saesneg bob tymor ers hynny. Mae newydd orffen golygu y 60 teitl a'u trosglwyddo i wefan HWB. Yn 2004 derbyniodd y Fedal Gee Er Anrhydedd am ei waith dros ysgolion Sul a chyhoeddiad Addysg Gristnogol yng Nghymru.

Bu'n Olygydd Blwyddlyfr Henaduriaeth Môn am 16 o flynyddoedd. Mae'n aelod o Adran Gyhoeddi Eglwys Bresbyteraidd Cymru a bu'n aelod o Gyngor Darlledu Addysg BBC Cymru. Mae'n aelod o'r Orsedd hefyd.

Mewn maes hollol wahanol ysgifennodd a chyhoeddi hanes Cylch Cinio Llanfair Pwllgwynyll pan ddathlodd Y Cylch ei ben blwydd arian yn 2005.



## Bethan Roberts
## 1932 - 2020



Gyda thristwch cyn y Nadolig daeth y newydd am farwolaeth Bethan Roberts, gweddw y pensaer Glan Roberts. Bu Bethan yn dioddef o'r cyflwr creulon Alzheimer's am rai blynyddoedd a chafodd bob gofal mewn Cartre Nyrsio yng Nghaerdydd yn ystod ei blynyddoedd olaf.

Des i'w hadnabod gyntaf yn 1959 pan odd hi a Glan yn byw yn Coryton a daeth Bethan i'r ddau gyfarfod yn Rhiwbeina i fynd ati i sefydlu Cylch Meithrin Cymraeg yn y pentre. Cynigiodd hi a'r diweddar Sally Hughes i arwain y cylch yn wirfoddol a disgwyliwyd dwsin o blant y bore cyntaf ond yn lle hynny daeth 21! Buodd Bethan a Sally farw o fewn misoedd i'w gilydd a thrist ydy meddwl na fydd y ddwy yn dal hefo ni wrth i'r Mudiad Meithrin dathlu hanner can mlwyddiant ei fodolaeth eleni.

Pan gynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol yng Nghanolfan yr Urdd yn Aberystwyth ym Medi 1971 i sefydlu Mudiad Meithrin etholwyd Bethan yn ysgrifennydd cyntaf y Pwyllgor Gwaith (1971-73) ac wedi hynny fel trefnydd (1973-74). Gweithiodd yn ddiarbed yn hybu gwaith y Mudiad a bu'n teithio ledled Cymru yn annog rhieni i fynd ati i sefydlu cylch yn eu hardal. Bu ei chartre 'Y Dalar Deg' yn Radur yn swyddfa answyddogol y Mudiad am flynyddoedd cyn i'r Mudiad allu sefydlu swyddfa go iawn a phenodi cyfarwyddwr a threfnwyr sirol.

Cafodd Bethan ei geni a'i magu yn Llangrannog ac odd hi'n meddwl y byd o'r ardal hon ar hyd ei hoes a'i dymuniad odd cael ei chladdu ym mynwent Capel y Wig yn Llangrannog a hynny a ddigwyddodd ar 19 Rhagfyr.

Ar ôl byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd dychwelodd i Langrannog gyda Glan a buont yn byw yn 'Delfryn' sef hen gartre ei theulu nes i'w hiechyd ddirywio gan eu gorfodi i symud nôl i Gaerdydd i fod yn nes at y teulu.

Hyfforddodd Bethan i fod yn athrawes yng Ngholeg y Santes Fair ym Mangor a bu'n athrawes yn Ysgol Gyfun Rhyfelen ac Ysgol Gyfun Glantaf.

Dros y blynyddoedd derbyniais lawer o garedigrwydd gan Bethan a Glan ar eu haelwyd yn Radur ac am flynyddoedd byddwn yn galw heibio bob bore Dydd Nadolig am sieri fach a rhoi'r byd yn ei le cyn mynd yn fy mlaen i gael cinio Nadolig ar aelwyd fy mrawd Wynn a'i wraig Angela ym Mhentyrch.

Odd Glan a Bethan yn Gymry i'r carn ac yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn ac yn cefnogi popeth Cymraeg yn ogystal â bod yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Ebeneser.

Cofiaf un tro i mi fynd i brotest Cymdeithas yr Iaith yn Abertawe ac eisteddodd Bethan a'i ffrind Heulwen Jones ar ganol y ffordd ynghanol ugeiniau o bobl ifanc yn y brotest. Ond dyna'r heddlu yn cyrraedd ac yn dechrau llusgo'r bobl ifanc allan o'r ffordd a hynny yn ddigon hegar. Ond pan daeth tro y ddwy i gael eu llusgo dyma blismon yn dweud *"sorry ladies, you are not in the right age range"* a'u gadael yno! Hynny ydy odd yr heddlu am roi'r argraff mai dim ond pobl ifanc anghyfrifol odd wrthi yn protestio. Ond y gwir amdani wrth gwrs odd croesdoriad oed yn cefnogi gweithredoedd Cymdeithas yr Iaith i ennill statws i'r iaith a Bethan a Heulwen yn eu plith.

Er i Bethan ein gadael mae llwyddiant Mudiad Meithrin yn dyst a chlod i'w holl waith caled ym mlynyddoedd cyntaf y Mudiad ac mae Cylch Meithrin Rhiwbeina yn dal i ffynnu ar ôl bod ar agor am 62 o flynyddoedd.

Hir y pery'r cof am Bethan a hoffwn fynegi fy nghydymdeimlad dwysaf ag Elin Wyn, Aled a Catrin a'r teulu ehangach yn eu colled a'u hiraeth am wraig a mam arbennig a wasanaethodd ei chenedl hyd eithaf ei gallu.

*Gwilym E. Roberts*

*Cesglir arian er cof am Bethan i'r Mudiad Meithrin ac Ambiwlans Awyr Cymru drwy dudalen justgiving. Os am gyfrannu ewch i'r dudalen we: justgiving.com/crowdfunding/bethanroberts*

## Y DIGWYDDIADUR

### CHWEFROR

**Gwener, 5 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro D. Densil Morgan ar y testun 'Y Gair a'r Genedl: Canmlwyddiant Geni R. Tudur Jones'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Dyfrig Lloyd. (dyfriglloyd@hotmail.com).

**Gwener, 19 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y nofelydd, bardd a golygydd, Elinor Wyn Reynolds, ar y testun 'Dyma fy ngwirionedd.' Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### MAWRTH

**Gwener, 12 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Alun Ffred Jones ar y testun 'Wil Sam a'r busnes sgwennu 'ma'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Dyfrig Lloyd (dyfriglloyd@hotmail.com).

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

# Colofn Hannah



## *Dath rhwbeth HEB wahoddiad yn 2020 !!!*

Yn ystod Ianws o Ionawr flwyddyn yn ôl, 'roedd camau bach *Y Dinesydd* yn eitha byr. Fel papur bro dinas Caerdydd, yno roedd yn cael ei ddosbarthu, fel *Wilia* yn Abertawe, *Glo Mân* ym Mrynaman, a ll'wer i bapur bach arall o'dd yn gwasanaethu eu bro.

Dechre da OND!!!! o'dd rwpeth yn cwato rownd y gornel, dath HEB wahoddiad!

Tyfodd ein papur goese hir, a'th ar ras wyllt, nes cyrra'dd corneli pell ein daear, trowyd y tudalennau yn sgrin, nes bo'r *Dinesydd* i bawb o bobol y byd.

Fe ddysgon ni i gyd air newydd, "ZŴM"

Dyna shwt ddetho i i napod Seimon. O'dd Seimon yno'n zŵmio!!

Ma'r gŵr ifanc 'ma yn byw yn Long Island, Efrog Newydd, ac yn dysgu mewn ysgol breifat yno, ond yn dwad o Gymru'n wreiddiol, ac fe gitshon ni ddilo dros y môr. Y cysylltiad o'dd Gwen Rice, sy'n ddarlithydd, ac o'dd hi'n ei helpu fe 'da'r Gymra'g, ac yn zŵmo bob Satwrn a Sul. Ma gyta Seimon ddiddordeb mewn tafotie'th, y Wenhwyseg yn benna', am ei fod yn dwad o barthe' y seinie' pert hynny. Gan y mod i'n sgrifennu yn nhafotieth 'Bertŵe yn *Y Dinesydd*, ma fe 'di bod yn darllen y golofn yn gyson, a Gwen yn egluro ambell beth iddo fe. Yna, geso i wahoddiad i ymuno â nhw, ynghyd a'r Dr Elin Jones, yr hanesydd, sy'n dwlpin o Wenhwyseg ei hunan wrth gwrs, a na le y'n ni'n petwar yn ca'l sgyrsie difyr am dafotieth a llu o bethe erill.

Y tro cynta' i fi ymuno. penderfynnodd y cwmwle i dynnu'u dannedd, a'u gollwng ar do'r tŷ glass le o'n i'n ishte, y miwsig ceseiriog rhyfedda', a'i nodau'n boddi ngire i, a'r tri arall wrth gwrs yn ffili'n nghlywed i !!!!!

Yn ystod un cyfarfod, gwelsom y Fari Lwyd o'dd Seimon wedi 'neud, difyr iawn.

'Leni, ma nhw'n mynd i drafod drama DT Davies *Ble Ma Fa*. 'Dw i'n gyfarw'dd a hon, o achos yn 2004, fe whares i ran y fam ynddi gyta Cwmni Drama Capel Minny St. Ca'rdydd yn y Babell Lên, yn Steddfod Genedlaethol Casnewydd. Wetyn, bydd ei darllen 'to yn dod nôl a llu o atgofion. Ond yw bywyd yn gallu troi m'wn cylch w'the!!

Pan ddechr'ues i Golofn Hannah yn ystod Ianws o Ionawr 2020, bach iawn feddyl'es i y byddai'n ca'l ei darllen yng nghlustie'r Statue of Liberty!! Eto, fel wetws Ifans y Tryc *"Scersli bilif"* !! A beth wete Mangu 'se hi'n gwpod pwy mor bell a'th ei meddygyniaethe hi.

Wel diolch i Gwen am gysylltu yn y lle cynta', hi rows y cyfle i gamu dros y gamfa o Ga'rdydd i Efrog Newydd, un cam o bum munud ag o'n i yno, rhyfedd o fyd, a grêt o'dd dod i napod Seimon ag Elin.

Er bod ymwelydd wedi dod â chwmwl dros y byd y llynedd, mae gan bob cwmwl ei ymyl arian. Daeth yr ymwelydd o Tsheina draw, ac o fanny dda'th y dywetiad canlynol 'fyd 'Yn lle diawlio'r t'wllwch, cynwch ganw'll', a ma ll'wer o rheiny ynghyn bellach ond o's e? A diolch am 'ny.

Nes y gallwn ni ddal dwylo  
Nes y gallwn ni gofleidio,  
Nes bydd pethe yn adfywio,  
Fe gariwn ninnau mla'n i ZWMIO.

Tan tro nesa' 'te. Iechyd da a Blwyddyn Newydd Well i ni i gyd.

# Merched y Wawr Y Felin

**Hanes Cwm Tryweryn o lygad y ffynnon**

Roedd Martha Roberts, mam Gwyn Roberts, yn ddynes nodweddiadol yn hanes Cymru. Hi oedd athrawes olaf ysgol fach Capel Celyn, Cwm Tryweryn.


Cawsom, yng nghwmni Gwyn, glywed am yr holl hanes dirdynnol hwnnw.

Gwelsom y llythyron swyddogol yn sôn am foddi'r cwm a'r ffilmiau a ddangoswyd ar y pryd. Daethom i adnabod cymeriadau'r pentref, y plant. Ein braint oedd cael cywed yr hanes o lygad y ffynnon gan fod Gwyn yn berchen ar gymaint o dystiolaeth hanesyddol pwysig.

Dysgom lawer mewn ffordd hwylus a heintus. Noson wych!!! Roedd yn dda cael gwrando ar hanes Tryweryn o'r newydd a gweld y trysorau sy gan Gwyn.



Yr ysgol ynghanol y pentre



Martha Roberts

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



### Tribannau Morgannwg

Un o'r ffurfiau mwyaf hoffus a chartrefol ar ein barddoniaeth yw'r triban. Mae'n fesur syml, gwerinol, a blas y pridd yn drwm arno. Ond y mae hefyd yn fesur hynod bwysig yn hanes diwylliant Cymru, gymaint felly fel y gallai Griffith John Williams, yr ysgolhaig mawr a fu'n Athro'r Gymraeg yng Nghaerdydd, ddweud heb flewyn ar ei dafod yn y bennod agoriadol orchestol, 'Morgannwg', yn ei gyfrol *Iolo Morganwg* (1956), 'fod tribannau Morgannwg yn un o brif ogoniannau llenyddiaeth boblogaidd cenedl y Cymry'.

Disgyn oddi wrth un o fesurau beirdd yr Oesoedd Canol, sef yr englyn cyrch, y mae'r triban. Mesur yw'r englyn cyrch sy'n gyfuniad o gwpled o gywydd deuair hirion a chwpled o awdl-gywydd, ac fe'i hystyrid yn fesur at ddefnydd beirdd is eu statws. Cafodd y triban ei eni, felly, i deulu o fesurau a oedd yn 'boblogaidd' yn hytrach nag yn 'aruchel'.

Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol yr oedd y sefydliad barddol wedi diwygio rhywfaint ar yr englyn cyrch ac wedi ei wisgo â chynghanedd gyflawn. Ond nid o'r ffurf ddiweddarach honno ar yr englyn cyrch y mae'r triban yn disgyn, ond o'r hen ffurf anniwygiedig a digynghanedd a oedd yn parhau i gael ei defnyddio gan y beirdd 'answyddogol'.

Amhosibl yw olrhain yn fanwl ddatblygiad y triban o'r hen englyn cyrch oherwydd canu cynganeddol y beirdd proffesiynol a gofnodwyd yn llawysgrifau'r Oesoedd Canol gan mwyaf, ac ni ddechreuwyd o ddifrif roi'r canu rhydd ar glawr tan tua chanol yr 16eg ganrif. Ond o hynny ymlaen mae tribannau i'w gweld yn lled gyffredin mewn llawysgrifau a llyfrau, a'r rheini'n waith beirdd o bob rhan o Gymru. A chydag amser, gwelwyd y triban yn ennill yn gynyddol yr ystwythder a'r llithrigrwydd sydd mor nodweddiadol ohono yn nwylo beirdd gwlad Morgannwg erbyn y 19eg ganrif.

Un a'i henwogodd ei hun am y penillion poblogaidd a luniodd er mwyn hyfforddi'r bobl gyffredin yn sylfeini'r ffydd Gristnogol oedd Rhys Prichard, 'Hen Ficer' Llanymddyfri, a fu farw yn 1644. Roedd y triban yn un o'r mesurau a ddefnyddid ganddo wrth iddo gyfansoddi ei benillion. Pan aeth ati i osod Catecism Eglwys Loegr ar gân, er enghraifft, dewisodd fesur y triban ar gyfer y dasg honno, gan egluro mewn pennill rhagarweiniol mai un o'i resymau dros wneud hynny oedd am fod y mesur yn un mor rhwydd i'w gofio:

> Ni cheisiais ddim cywreinwaith,
> Ond mesur esmwyth, perffaith,
> Hawdd i'w ddysgu ar fyr dro
> Gan bawb a'i clywo deirgwaith.

A dyna, yn sicr, un rheswm pam y bu'r mesur hwn mor boblogaidd gan feirdd gwlad dros y canrifoedd.

Fel y gwelir o'r enghraifft uchod, pedair llinell sydd i driban. Mae saith sillaf yn llinellau 1, 2 a 4, a saith neu wyth sillaf yn llinell 3. Mae llinellau 1, 2 a 4 yn gorffen yn ddiacen ac yn odli â'i gilydd – dyna'r 'tri' yn 'triban' – ac mae llinell 3 yn gorffen yn acennog ac yn odli'n gyrch â chanol llinell 4.

Mae bod y Ficer Prichard yn canu ar fesur y triban yn tanlinellu'r ffaith fod galw'r triban yn 'driban Morgannwg', fel y gwneir yn gyffredin erbyn heddiw, yn gamarweiniol ar un ystyr. Rhaid cofio fod beirdd ar draws Cymru wedi dewis canu ar y mesur hwnnw dros y canrifoedd. Eto i gyd, mae'n wir dweud fod gan y triban gysylltiad arbennig â'r De, ac â Morgannwg yn enwedig. Fe'i gelwir weithiau yn 'Fesur Gwŷr Deheubarth', ac mor agos oedd ei gysylltiad â Morgannwg erbyn y 19eg ganrif fel y gallai tribannwr o Aberdâr o'r enw Jenkin Howell (1836–1902) ganu fel hyn:

> Mae gwŷr y North ers oesau
> Yn hoffi caeth fesurau,
> Ond triban hen Forgannwg wen
> Ar fawl neu sen yw'r gorau.

Y triban, heb os, oedd hoff fesur beirdd gwlad Morgannwg erbyn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, ac ym Morgannwg – a dwyrain Morgannwg yn enwedig – y mae'r triban wedi gwreiddio ddyfnaf. Fel y sylwodd D. Myrddin Lloyd yn 1948: 'Ym Morgannwg a'r ardaloedd o'i chwmpas y bu, ac y pery, poblogrwydd pennaf y triban, a blas ei thafodiaith, a swyn ei henwau lle oedd, ei bywyd a'i harferion, yn hyfrydwch trwyddynt.'

Gellir dweud am dribannau Morgannwg eu bod yn ymhoffi yn y 'penodol', ac wrth eu bodd yn enwi pobl a lleoedd a sôn am ddigwyddiadau neilltuol, yn hytrach na chyfleu profiadau cyffredinol a doethineb oesol, fel sy'n wir mor aml am yr 'hen benillion'. Gwnaeth Tegwyn Jones gymwynas fawr trwy gyhoeddi casgliad helaeth o 677 o dribannau dan y teitl *Tribannau Morgannwg* yn 1976, ac nid oes raid ond cymharu'r casgliad hwnnw â chasgliad cyffelyb T. H. Parry-Williams o'r 'hen benillion' yn 1940 i weld y gwahaniaeth rhyngddynt.

Er yr holl sôn am 'dribannau Morgannwg', fe ddylid cofio mai 'englynion' ac nid 'tribannau' oedd enw arferol gwŷr Morgannwg arnynt. Yn wir, tystia'r Athro G. J. Williams fod 'yr henwyr yn nwyrain Morgannwg' yn parhau i'w galw'n 'englynion' mor ddiweddar â'r 1950au. Hwyrach fod hynny'n atgof o'r ffaith fod y triban yn tarddu o'r hen englyn cyrch; ond wedi dweud hynny, y mae tuedd yn iaith Morgannwg i alw unrhyw bennill pedair llinell yn 'englyn'.

Telynegion bychain yw tribannau Morgannwg, yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd a helyntion y werin bobl. Ond at ei gilydd, adlewyrchu bywyd yr hen Forgannwg wledig, ysgafnfryd, y maent. Yn y faled yn hytrach na'r triban y gwelwn fwrlwm ac argyfyngau'r bywyd trefol newydd a ffrwydrodd i fodolaeth ym Morgannwg yn ystod y 19eg ganrif yn sgil y Chwyldro Diwydiannol. Ac er bod nifer o dribannau rhybuddiol a moeswersol ar gael, yr emyn yn hytrach na'r triban yw'r prif sianel ar gyfer y profiadau ysbrydol dwys a ddaeth i ran trigolion Morgannwg yn sgil Diwygiad Methodistaidd y 18fed ganrif.

Fel yr awgrymwyd eisoes, un o nodweddion pennaf tribannau Morgannwg yw eu brogarwch. Ys dywed yr Athro G. J. Williams, 'Canfyddir ynddynt [...] [g]ariad mawr at Forgannwg a'i phethau – pentrefi gwyngalchog y Fro, hen gartrefi'r Blaenau, rhadlonrwydd a llawenydd a gwarineb. [...] Cânt hwyl wrth fydryddu enwau lleoedd, fel petaent yn eu hanwesu – ni chredaf fod yr ymdeimlad hwn mor amlwg yng nghanu gwerin yr un rhanbarth arall.'

Ond ysywaeth, er bod enwau lleoedd lu i'w gweld yn nhribannau casgliad Tegwyn Jones, mewn dau driban yn unig y gwelais enw Caerdydd. Ac os byw ac iach, fe ddychwelwn at y ddau driban hynny rywbryd eto yn y gyfres hon o ysgrifau.

# Mallt Anderson



**Bu farw ar 3 Ionawr 2021; angladd yn Amlosgfa Y Ddraenen, 1 Chwefror**

Teyrnged gan y Parchg Aled Huw Thomas, Gweinidog Eglwys y Crwys

Mae gan lawer ohonom resymau lu dros ddiolch i Dduw am Mallt. Cyfrannodd a chyflawnodd gymaint yn ystod ei bywyd hir. Byddai llawer wedi hoffi bod yn ei hangladd, a phob un â'i atgofion a'i resymau dros ddiolch am gael adnabod Mallt.

Fel ei gweinidog braf yw cael dweud bod Mallt yn un a oedd yn cefnogi ei gweinidog yn gyson. I Mallt, golygai hynny estyn gair o wir ddiolch ar ddiwedd oedfa, gair o werthfawrogiad, a sylw crafog a deallus ynghylch cynnwys pregeth. Mae unrhyw weinidog yn mynd i deimlo colli aelod fel yna o'i gynulleidfa.

Dros y chwe blynedd diwethaf deuthum i adnabod Mallt fel aelod ffyddlon ac ymroddedig yn Eglwys y Crwys. Roedd ganddi un o'r wynebau hynaws hynny, yn meddu ar olwg ddisgwylgar, ddiolchgar a gwerthfawrogol wrth droi i addoli. Wrth ddod i'w hadnabod dysgais am lwybr diddorol ei bywyd, ei theulu, ei phererindod briodasol hapus gyda Don, ei gwerthfawrogiad o bob gofal gan Robin, Arran a'u teuluoedd a hefyd gan staff ei chartref yn Nhŷ Enfys; ac am ei chariad at Gymru a'r pethe. Dysgais am ei rôl yn sefydlu Cymdeithas Gwenllian, gyda Sempringham yn Swydd Lincoln, lleoliad dyddiau olaf y dywysoges a'r lle y mae ei charreg goffa bellach i'w gweld. Diau y bydd sefydlu a hybu Cymdeithas Gwenllian yn un o'r pethau arhosol a fydd yn ganlyniad i frwdfrydedd Mallt.

Roedd Mallt yn ddibynadwy a didwyll yn ei hymwneud ag eraill, boed yn y Crwys, yn y brifddinas neu'n y Gymru ehangach, lle y bydd eraill, yn adleisio'r y sylwadau hyn mewn cymaint o feysydd gwahanol.

Ganwyd Mallt yn Synod Inn, Llanarth, ym 1926. Yn Gardi, felly. Graddiodd o Brifysgol Manceinion gan astudio ymhellach yn Ysgol y Byddar. Daeth i Gaerdydd i ddysgu plant byddar. Yna dysgodd blant ag anghenion arbennig yn Ysgol Tŷ Gwyn. Yn athrawes beripatetig wedi hynny, cyfarfu â Don (a oedd yn feddyg ar long *The Durham* ar y pryd, ac wedi hynny'n Swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd yng Nghaerdydd ac yn Feddyg Ymgynghorol mewn Iechyd Cyhoeddus wedi hynny). Buont yn briod am 54 o flynyddoedd. Cawsant ddau o blant, Robin ac Arran, a phedwar o wyrion, Bethan, Kate, Iestyn a Cai.

Yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr, Cwmni Drama y Crwys ac Eglwys y Crwys, ynghyd â chymdeithasau Cymraeg ein prifddinas, cadwodd Mallt yn fythol ddifyr wrth ddarllen, troi at farddoniaeth a chynganeddu. Roedd yn storïwr arbennig, yn hyddysg ynghylch barddoniaeth, hanes a thraddodiadau Cymreig, â'i chof bywiog yn gallu dwyn i gof gyfresi o benillion a hanesion. Yn aelod o'r Orsedd, fe'i clywyd yn aml ar Radio Cymru ac ar raglen *Talwrn y Beirdd*.

Pan ddaeth byw yn Lake Road East yn ormod iddynt yn sgil salwch Don, symudodd y ddau i Dŷ Enfys, lle bu Mallt yn byw'n hapus o 2015 ymlaen. Roedd wrth ei bodd yn derbyn ymweliadau teulu a ffrindiau ac roedd, hyd y diwedd, yn garedig ei gair a'i gwerthfawrogiad am bob arwydd o ofal.

Diolchwn i Dduw amdani gan ei chyflwyno i'w ofal tadol ef ar ddiwedd y daith.



***Carreg Goffa y Dywysoges Gwenllian***

# Tir Braenar

Stori fer gan
**John Emyr**

Ers i Osian fod ar ffyrlo o'i waith, ac yn enwedig ar ôl iddo gael ci, daliai ar bob cyfle – o fewn y cyfyngiadau – i fynd am dro yn ei gynefin.

'Rwyt ti'n gwmni gwerth chweil,' meddai wrth Gaff, 'ond paid â rhuthro wir.'

Cerddodd y ddau i gyfeiriad llwybr y ceffylau, a Gaff yn tynnu ar ei dennyn nes ei fod bron â thagu.

'Ara' deg, Gaff. Paid tynnu, wir.'

Ers iddo brynu'r llamgi bywiog am £900 gan fridiwr cŵn yn y Cymoedd, roedd Osian yn falch ohono ac yn ei gyfri'n ffrind. Hoffai ei flew cochddu a'i gyfarthiad bonheddig. Ond pan brynodd y ci, ni chafodd hanner gair am ei duedd ysbeidiol i dynnu'n groes a gwrthod ufuddhau. Er hynny, o dipyn i beth, roedd yn dechrau adnabod ei natur. 'Ci fel'na ydi o,' meddai wrth Megan ei wraig.

Pan gyrhaeddon nhw'r mynediad i'r goedlan, sylwodd Osian ar blanhigyn gwyllt â blodau porffor a dyfai wrth fôn clawdd isel. Roedd dafnau glaw y noswaith flaenorol yn glynu wrth y petalau. Rhywbeth arall a dynnai sylw Gaff, sef labrador pendefigaidd a gerddai o flaen ei feistres ar lwybr yr ochr arall i'r clawdd. Plwc sydyn ac roedd Gaff wedi llwyddo i dynnu ei dennyn o law ei feistr a neidio dros y clawdd. Rhuthrodd Osian ar ei ôl. Erbyn iddo'i gyrraedd roedd Gaff yn dechrau gwneud ffrind newydd o'r labrador ond gwelodd fod Osian yn plygu i godi dolen y tennyn. Llamodd Gaff mewn protest i gyfeiriad cae cyfagos, ei dennyn yn donnau gwibiog ar ei ôl.

I ddathlu ei ryddid, rhedodd Gaff i mewn i ffos, llepian y dŵr, yna llamu dros glawdd arall i archwilio'r pridd a'r llwyni. Brasgamodd Osian ar ei ôl. Pan gyrhaeddodd ben pellaf y cae, doedd dim golwg ohono.

'Gaff! Gaff!'

Dim ymateb. Tybed beth oedd wedi tynnu sylw'r llamgi? Roedd adwy yn y gwrych gerllaw. Rhedodd Osian i gyfeiriad honno. Hwyrach fod Gaff wedi gweld ei gyfle i ddianc ymhellach. Cyrraedd yr adwy. Olion dwy bawen yn y pridd, a dyna i gyd.

'Gaff!' gwaeddodd eto, 'ble wyt ti?'

Eto dim smic. I ble gythgam oedd o wedi diflannu? Rhedodd Osian ar hyd ymyl y cae gan ddyfalu bod Gaff wedi dilyn yr un llwybr. Cyrraedd pen y llwybr hwnnw. Sefyll a syllu. Ac yn gwbl annisgwyl i Osian roedd cae arall o'i flaen a hwnnw'n dir caled heb ei drin. Dim byd yma i ddenu ci. Doedd bosib fod Gaff wedi rhedeg yma? Oedd! Dyna ôl ei bawennau eto.

'Gaff! Gaff!'

Y tro hwn daeth sŵn i'w glyw – sŵn tebyg i grio gyddfol. Cerddodd i gyfeiriad y sŵn, gan ofni beth a welai. A dyna'r truan o'i flaen, blew gwyn ei fol ar y ddaear a'i dafod yn llyfu gwaed oddi ar un bawen.



***Llun: Luned Aaron***

'Gaff bach, be ddigwyddodd i ti?'

Cododd Gaff ei ben gan barhau i wneud sŵn torcalonnus.

'Wel druan ohonot ti,' meddai Osian, 'ble roist ti dy bawen?'

Plygodd i gyffwrdd â'r briw, ac roedd holl gorff Gaff yn gwingo mewn poen. Tynnodd Osian hances o'i boced a'i rhwymo am y bawen waedlyd. Wrth iddo'i rhwymo, gwelodd rywbeth caled wrth ymyl y briw.

'Be'di hwn Gaff?'

Darn o fetel oedd o, wedi dechrau dod i olau dydd, mae'n rhaid, ar ôl storm Christoph. Yn ofalus rhag peri mwy o niwed, tynnodd Osian bawen y ci yn ddigon pell oddi wrth y peth oedd wedi'i frifo.

'Wel druan ohonot ti.'

Safodd Gaff ar dair coes a dechrau cerdded yn herciog wrth ochr ei feistr.

Wedi iddyn nhw gyrraedd adre, gofynnodd Megan, 'Be ddigwyddodd?'

'Damwain gafodd o,' eglurodd Osian, 'mi fydd o'n well yn y man.'

Aeth Megan ar frys at degell y gegin. Tywalltodd ddŵr berwedig i fowlen gron ac ychwanegu joch o hylif *Dettol* i'r dŵr. Gwingai Gaff wrth arogli'r diheintydd. Ond roedd golwg o ryddhad ar ei wyneb ar ôl i Osian lapio rhwymyn glân am y briw.

Y noson honno breuddwydiodd Osian ei fod yn ôl yn y cae oedd heb ei drin. Roedd Gaff yn gwingo mewn poen ac yn ceisio dweud rhywbeth wrtho, rhyw gyfrinach anesboniadwy.

Drannoeth, gyda'r wawr, dychwelodd Osian â rhaw o dan ei gesail. Croesi'r caeau at y tir braenar a phlygu uwch y fan lle anafwyd Gaff. Roedd mymryn o bant yn y ddaear lle gorweddodd y ci. Gwthiodd Osian ei raw i mewn i'r pridd. Ymhen chwarter awr roedd o wedi codi digon o bridd i weld bod y darn o fetel a anafodd Gaff yn perthyn i ddarn o haearn mwy, darn o rywbeth hynod o'r hen fyd.

Heb roi gormod o fanylion i ddarllenwyr *Y Dinesydd* ar hyn o bryd, dyna ddechrau'r darganfyddiad sy'n debygol o droi Osian, a pherchennog y cae, yn bobl gyfoethog y tu hwnt i bob rheswm.

# Yr Athro John Gwynfor Jones,
## MA, PhD, D.Litt., FSA, FRHistS, FLSW



**Bu farw ar 18 Rhagfyr 2020 a chynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Y Ddraenen ar 27 Ionawr 2021.**

*[Crynodeb o'r deyrnged gan y Parchg Dafydd Andrew Jones a gyhoeddwyd yn Y Gadwyn, misolyn Eglwys y Crwys, rhifyn Chwefror.]*

Cristion, Hanesydd, Ysgolhaig, Gwladgarwr, Cyfaill – dyna yw'r geiriau sy'n eu cynnig eu hunain wrth ddisgrifio Yr Athro John Gwynfor Jones. Roedd hefyd yn dalp o Ddyffryn Conwy yng nghanol bwrlwm dinas Caerdydd. Fe'i magwyd yng nghysgod Tal-y-fan a Bwlch y Ddeufaen, Pen-y-Gaer a Chaerhun, yn sŵn enwau fel Castell, Bryncynhadledd a Llwynygwaew, a'i addysgu yn 'Hen Ysgol Rad', Llanrwst (Yr Ysgol Ramadeg), yn nhref William Salesbury, 'Y Bont Fawr' ac nid nepell o Gastell a Chapel Gwydir, gorseddfa'r Wynniaid, a'r Wybrant, bro William Morgan – mannau ac enwau cyfareddol i un ag anian hanesydd ynddo. Yr oedd gwreiddiau yn bwysig iddo a'i rai yntau yn hynod gyfoethog.

Magwyd Dr Gwynfor ar aelwyd ddiwylliedig a wasanaethodd eglwys ac ardal yn helaeth a diarbed. Etifeddodd natur a chymeriad y teulu, ei ddiwylliant eang a'i ffydd gadarn, egni a gallu ei dad a thynerwch diymhongar a doeth ei fam. Trwy gydol ei oes bu yntau wrth reddf yn fynegiant o fywyd y gwreiddiau hyn. Fe'i cofiwn am ei fywyd glân, ei gymeriad diffuant, dwys a dwfn, hunan-ymwadol, diymhongar, annwyl a chynhesol, yn flaenor ymroddgar a ffyddlon.

Dengys teitlau ei gyhoeddiadau niferus i grefydd a chymdeithas a diwylliant Cymru ennyn ei ddiddordeb – ond nid yn y cyd-destun ysgolheigaidd yn unig. Yr oeddent iddo yn ffordd o fyw hefyd. Fe'i etholwyd yn flaenor yn 1975 yng nghapel Pembroke Terrace, Caerdydd, cyn i'r gynulleidfa honno ymuno gyda'r Crwys yn 1976 dan weinidogaeth y Parchg Cynwil Williams. Bu'n ffyddlon a chydwybodol ym mhob agwedd ar fywyd yr eglwys. Arweiniai'r addoliad a gweinyddu'r sacramentau, bu'n athro Ysgol Sul, golygydd *Y Gadwyn* am ddeugain mlynedd, heb sôn am ei gyfraniad ar bwyllgorau'r eglwys dros gyfnod o 45 mlynedd. Roedd yn bregethwr lleyg poblogaidd a bydd pulpudau y De Ddwyrain, Cymraeg a Saesneg, o bob enwad, yn llwm iawn hebddo. Byddwn ninnau fel Cyfundeb yn cofio ei gyfraniadau tawel, treiddgar yn ein pwyllgorau a chynhesrwydd ei lywyddiaeth yn Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg, Sasiwn y De a'r Gymanfa Gyffredinol, anrhydeddau ddaeth iddo ar gownt ei gyfraniad helaeth, yn arbennig i'n deall o'n hanes trwy ei gyhoeddiadau niferus. Yn Eisteddfod Caerdydd 2008 fe'i derbyniwyd, 'John Gwynfor', i Urdd y Wisg Wen yng Ngorsedd y Beirdd.

Fe'i cofiwn fel hanesydd cenedlaethol a ddringodd i frig yr ysgol academaidd ym Mhrifysgol Cymru. Graddiodd gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf yn y Gymraeg a Hanes Cymru yng Nghaerdydd. Enillodd MA ym Mangor; fe'i penodwyd yn ddarlithydd mewn Hanes Cymru yn ei hen goleg yng Nghaerdydd yn 1964 ac yno y bu hyd 2004. Derbyniodd radd PhD yno am draethawd ymchwil ar *The Wynn family and estate of Gwydir: their origins and growth and development up to 1674*. Dyrchafwyd ef yn Uwch-ddarlithydd ac yna'n Ddarllenydd cyn esgyn i Gadair bersonol yn yr adran. Enillodd radd D.Litt. ar gyfrif ansawdd a nifer ei gyhoeddiadau. Yn ogystal â hyn roedd iddo sawl cymrodoriaeth, FSA, FRHistS ac FLSW. Ymddiddorai ym mhob cyfnod o hanes Cymru ond arbenigodd yn y Cyfnod Modern Cynnar, yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ganrif ddilynol. Cyhoeddodd yn doreithiog lyfrau ac erthyglau mewn cylchgronau dysgedig, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dengys cynnwys, troednodiadau a llyfryddiaeth *y* cyfrolau hyn ehangder a dyfnder ei ysgolheictod. At hyn bu'n arloeswr gydag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg gan baratoi adnoddau at y gofyn hwnnw. Ar adeg ei ymadael oddi wrthym roedd testun cyfrol *The Elizabethan Bishops* wedi ei gwblhau a rhifyn 2020 o'r *Cylchgrawn Hanes,* y bu'n olygydd iddo oddi ar 2005, ar fynd i'r wasg.

Roedd yn ddarlithydd hynod boblogaidd gyda'i fyfyrwyr, mewn cymdeithasau hanes ledled y wlad a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn addysgwr wrth reddf drwy ysbrydoli, ysgogi a gwerthfawrogi, cyflwynai ei bwnc yn raenus-ddestlus a'i lapio o fewn cyd-destun hanesyddol ehangach i ddangos ei arwyddocâd: darlithoedd gafaelgar, megis gemau cerfiedig, disglair oeddent. Addas a phriodol iawn oedd ei wahodd i gyflwyno dwy ddarlith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019: 'John Wynn, ei deulu a'i gyfnod', a 'William Morgan a'i Feibl', gyda Thal-y-fan yn gefndir, Castell Gwydir o fewn golwg ac nid nepell, tref Llanrwst. Cafodd fyw bywyd prysur, llawn gan fwynhau dilyn ei ddiddordebau i'w ddyddiau olaf. Ni chefnodd ar ei wreiddiau; parhaodd yr un, yn annwyl, gostyngedig a diymhongar, yn ŵr preifat ond eto'n gyhoeddus, yn benteulu ond yn gyfaill i bawb.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf i Enid, ei briod, ac Eryl, Gareth ac Eleri a'u teuluoedd.

## Pwy yw pwy mewn lluniau du a gwyn?

Tua diwedd mis Hydref roedd Eirian, fy ngwraig, yn fy annog i glirio dodrefn yr ardd, byrddau a chadeiriau patio, cyn i aeaf arall gyrraedd.

Roedd angen clirio'r cwt ger y garej yn gyntaf. Dyna pryd y sylwais ar hen focs trwm yn llawn papurau amrywiol. Dechrau tynnu ambell amlen fawr allan a dyna sylweddoli'n gyflym bod hoff bryfed Dr Hefin Jones wedi bod yn gwledda yno, o bosibl ers dechrau'r naw degau! Ond doedd y pryfed heb gyrraedd amlen o hen luniau du a gwyn a dyna ddechrau cael golwg ar un neu ddau ohonynt yn y lolfa.

Rydw i am sôn am ddau lun. Gobeithio eich bod yn dal i ddarllen oherwydd byddaf angen eich cymorth gyda'r ail lun!



Yn y llun cyntaf sydd mewn cyflwr gwych, gwelir golygfa ddigon cyffredin o'r ganrif ddiwethaf. Dau ddyn yn y pulpud a naw arall yn y sedd fawr. Mae fy nhaid, Parchg J. Clement Davies, Castellnewydd Emlyn yn y pulpud ac mae Parchg Peter Thomas, Aberystwyth, ifanc iawn ei olwg yn y sedd fawr. Fy ymateb amlwg oedd meddwl: pa gapel yw hwn, pa flwyddyn a beth oedd yr achlysur?

Y canlyniad oedd sgwrs fach e-bost gyda Peter fel sy'n digwydd yn achlysurol. Ymddengys taw dyma sy'n gywir. 1977 oedd y flwyddyn, Ainon Gelliwen ger Meidrym, Sir Gaerfyrddin, yw'r capel a'r Parchg Brinley Reynolds sy'n sefyll yn y pulpud gyda fy nhaid. Cyfarfod i ddathlu chwarter canrif ac ymddeoliad Brinley Reynolds a fu yno ers 1952 – er dywed rhai dyddiaduron enwadol yn anghywir 1925!

Roedd brawddeg o eiddo Peter Thomas yn rhagarweiniad amserol i'r ail lun du a gwyn sydd gennyf dan sylw: '…mi fyddaf yn aml wrth edrych ar hen luniau yn gresynu na fyddai rhywun wedi ysgrifennu ar gefn y llun yn nodi pwy ydynt.' Cytunaf yn llwyr gyda hyn a dychmygaf eraill ohonoch hefyd yn dweud Amen.

Symudwn ymlaen i'r ail lun sydd hefyd mewn cyflwr arbennig. Mae cynifer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wedi symud yma o gyfeiriad y gorllewin ar hyd y degawdau. Dyw hi ddim yn amhosibl bod un neu ddau ohonoch yn y llun hwn!

Ydych chi'n barod am ychydig o waith ditectif? Y cliw gorau yw 'ar achlysur ein Priodas Arian, 19 Gorffennaf, 1959.' Pwy felly yw'r gŵr a'r wraig? Cliw arall yw enw'r tŷ sef 'Glanceri.' Felly tybed ai Glan a Ceri Jones, Davies neu Evans! Ceir cysylltiadau â Chastellnewydd Emlyn lle stampiwyd Gables Studio, Newcastle Emlyn. PHONE: RESIDENCE 374 ar gefn y llun.

Gwelir llawer o blant yn y llun. Erbyn hyn maent yn eu saith a'u wyth degau. Tybed a ydych chi'n adnabod unrhyw un? Efallai eich bod wedi cyfarfod un neu ddau ohonynt ar Zoom yn ystod cyfnodau clo!

Rhowch wybod os gwelwch yn dda. Diolch i bawb – eirianagwilym@gmail.com



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS MINNY STREET

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl am Eldrydd Williams, Llanisien. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i phriod, Fred, eu merch, Abigail Sara, a'u hwyres, Cari Grug, ac â'r teulu cyfan a'i chyfeillion niferus. O fewn y cyfyngiadau presennol, cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am fywyd Eldrydd yn yr amlosgfa ar 22 Rhagfyr.

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth y Parchedig Ieuan Davies, cyn-weinidog annwyl yr eglwys. Cydymdeimlwn yn ddiffuant ag Eunice, Nia a Lois a'u teuluoedd.

**Oedfaon ac addoli**

Mae'n trefn newydd o oedfaon bore Sul, bore Mercher a nos Fercher yn parhau dan arweiniad ein gweinidog. Gan gydnabod nad yw pawb mewn ffordd i ddod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a bore Mercher dros Zoom. Diolch i'r gweinidog am ddarparu taflen addoli wythnosol i gyd-fynd ag oedfa'r Sul. Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw os am fynychu oedfaon yn y capel.

**Yr Ysgol Sul a *PIMS***

Mae plant yr Ysgol Sul wedi ailgydio yn eu cyfarfodydd dros Zoom ar brynhawn dydd Mawrth. Yn anffodus, nid oes modd cynnal sesiynau *PIMS* (Pobl Ifanc Minny Street) ar hyn o bryd ond byddwn yn ailgydio yn y cyfarfodydd cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n caniatáu.

**Y Gymdeithas**

Cynhelir cyfarfod o'r Gymdeithas dros Zoom nos Fawrth, 9 Chwefror, pan fydd yr Athro Sioned Davies yn cyflwyno Frank Olding a fydd yn ein difyrru â'i wybodaeth eang.

**Cefnogi elusennau**

Er nad ydym wedi medru cefnogi elusennau yn ein dulliau arferol yn ddiweddar, mae haelioni aelodau wedi parhau mewn amrywiol ffyrdd – er enghraifft drwy gynllun Siopa Teg sy'n cyfuno cefnogaeth i Fasnach Deg a Banc Bwyd Caerdydd drwy archeb sefydlog. Mae aelodau hefyd wedi ymateb i geisiadau am nwyddau ar gyfer digartref y ddinas a ffoaduriaid, a hyderwn y bydd modd i ni barhau i estyn cymorth wrth i'w gofynion ddod i'n sylw.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

**Gwaeledd**

Bu'r Tad Peter Davies, sy'n dathlu'r Offeren Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant, yn sâl dros gyfnod y Nadolig. Erbyn hyn, mae wedi gwella ac yn ôl wrth ei waith yn Gaplan yn Ysbyty'r Brifysgol. Bu teulu arall o'n cynulleidfa'n wael gyda Covid-19 dros y Nadolig, ond maen nhw hefyd yn gwella erbyn hyn. Edrychwn ymlaen at glywed Mared yn gwneud ei chyfraniad cerddorol i'r Offeren Zoom yn y dyfodol agos.

**Teyrngedau**

Bu farw dwy a wnaeth gyfraniad i fywyd yr Eglwys yng Nghaerdydd yn ystod mis Rhagfyr. Gorffwysent mewn hedd.

Magwyd Madge O'Keefe yn Iwerddon a daeth i Gaerdydd ar ôl graddio ym Mhrifysgol Galway. Hanesydd oedd hi a threuliodd ei gyrfa yn dysgu a darlithio. Ysgrifennodd lyfryn am y chwe merthyr Cymraeg, a chafodd y fraint o'i gyflwyno i'r Pab ar achlysur eu canoneiddio hanner canrif yn ôl. Ar ôl ymddeol, bu'n darlithio yn Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol gan arwain grwpiau i ymweld ag eglwysi hanesyddol. Cefnogai Gymdeithas Hanes Catholig Cymru a'r Gororau, a chofir ei brwdfrydedd yn eu hymweliad ag Eglwys Cadog Sant yn Llancarfan i weld y peintiadau sydd wedi dod i'r golwg yno.

Roedd Myra Crill yn Gymraes o ardal Conwy yn wreiddiol. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio fel nyrs cyn ymgartrefu yng Nghaerdydd yn ystod y 1990au. Daeth yn aelod ffyddlon o blwyf Pedr Sant yn y Rhath ac yn gefnogwr brwd i holl weithgareddau Comisiwn Undod yr Esgobaeth. Roedd wrth ei bodd yn cefnogi digwyddiadau eciwmenaidd yn y ddinas ac yn cwrdd â'i ffrindiau ym mudiad Focolare. Roedd yn eciwmenydd i'r carn ac yn gyfaill i'r diweddar Barchg Gethin Abraham Williams; roedd wrth ei bodd yn croesawu cyfarfodydd rhyng-ffydd i'w chartref. Ei gweddi barhaol oedd yr Undod y gweddïodd Crist amdano, a bydd ei chymuned a'i chyfeillion yn gweld eisiau ei chymeriad hoffus a bywiog.

Cywsllt: carys@caerdelyn.com

## EGLWYS DEWI SANT

**Apwyntiad**

Llongyfarchiadau i'n Ficer, y Parchg Dyfrig Lloyd, ar ei apwyntiad yn Ddeon Bro Caerdydd. Dymunwn yn dda iddo yn ei gyfrifoldebau newydd, ac yn falch iawn y bydd yn parhau fel Ficer Eglwys Dewi Sant. Darlledir y Gwasanaeth Trwyddedu ar Zoom am 8.00 o'r gloch ar 11 Chwefror.

**Gwasanaethau**

Drwy gydol Suliau'r Adfent, Nadolig a'r Ystwyll cafwyd podlediadau o ddau wasanaeth, bore a hwyr, a llwyddwyd i gynnal un gwasanaeth bob Sul yn yr eglwys. Diolch arbennig i Dyfrig ac Ieuan am yr holl waith paratoi, ac i'r darllenwyr am eu cyfraniadau. Daeth criw bach ynghyd 16 Rhagfyr i ganu carolau yn yr awyr agored yn y Cilgant. Dydd Sul 20 Rhagfyr cynhaliwyd Gwasanaeth Teuluol ar gyfer y plant a phobl ifanc a phodledwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol gyda'r hwyr. Noswyl Nadolig a bore Nadolig gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn yr eglwys.

**Cymdeithasol ar Zoom**

Cynhaliwyd cwis ar 15 Rhagfyr a noson Gwin a Sgwrs ar 12 Ionawr. Cafodd y dysgwyr sesiwn Coffi a Chlonc 19 Rhagfyr a 16 Ionawr. Diolch i Sian Thomas am drefnu.

***Cloch Dewi***

Ymddangosodd rhifyn diweddaraf *Cloch Dewi* ar ei wedd Nadoligaidd. Diolch i'r golygydd Wyn Mears am lunio rhifyn difyr iawn unwaith eto.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Tomos a Sophie Morgan ar enedigaeth Efa Mai Ann, wyres i Shân ac i Phil ac Alison Stone ar enedigaeth wyres, Aneira.

**Colledion**

Gyda thristwch cofnodwn farwolaeth John Morgan ac anfonwn ein cydymdeimlad at Barbara a'r meibion, David a Hywel. Bu angladd Rob James yn yr eglwys 8 Ionawr. Yr oedd yn aelod o gôr yr eglwys ac yn ddarllenydd llithoedd. Cydymdeimlwn gyda'i weddw Heike a'i fab Dafydd. Cofnodwn gyda gofid farwolaeth Joan Thomas. Bu ganddi hi gysylltiad ag Eglwys Dewi Sant am gyfnod maith ac estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Chris a John Livsey ar farwolaeth Terry Bryer, brawd Chris, yn ddiweddar.

## EBENESER

**Oedfaon Nadolig**

Cynhaliwyd oedfa Nadolig yn fyw ar Facebook ar ddydd Sul 13 Rhagfyr. Diolch yn fawr iawn i bawb am recordio llais neu fideo er mwyn eu cynnwys. Cymerwyd rhan gan rai o'r ieuenctid a nifer o'r aelodau. Roedd Nadolig yr Ysgol Sul yn oedfa ar fideo hefyd gyda nifer o blant yr Ysgol Sul a Llanllanast yn cyflwyno fideos byrion o ddarlleniadau, caneuon a gweddïau i gyflwyno hanes geni gwyrthiol yr Arglwydd Iesu. Gan nad oedd parti Nadolig trefnwyd bod pecynnau Nadoligaidd yn cael eu dosbarthu i'r holl blant gydag ychydig ddanteithion a chrefftau. Diolch yn fawr iawn i'r rhai hynny fu wrthi'n trefnu, paratoi a chludo'r pecynnau i'r tai. Hefyd ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd oedfa fer ar Zoom. Roedd bron i 50 yn bresennol a braf oedd cael cychwyn dathliadau'r dydd trwy addoli'r Meseia gyda'n gilydd. Diolch i'r rhai gymerodd ran i gyhoeddi'r 'newyddion da o lawenydd mawr'.



*Pecynnau Nadoligaidd*

**Ymddeoliad**

Pob dymuniad da ac iechyd i Helen Thomas, Pontcanna ar ei hymddeoliad fel athrawes. Rhoes y tŵls ar y bar ddiwedd y tymor diwethaf a hithau'n rhy ifanc o lawer.

**Elusen**

Yn hytrach nac anfon cardiau Nadolig manteisiodd nifer o'r aelodau ar y cyfle i anfon cyfarchion trwy'r Llusern Fach a chyfrannu'n ariannol tuag at ein helusen, Uned Arennol Plant Cymru. Llwyddwyd i godi dros £400. Diolch o galon i'r rhai gyfrannodd am eu haelioni.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Sandra Semmens, Yr Eglwys Newydd a gollodd ei mam, Eluned Williams, a oedd yn byw mewn cartref yn Aberteifi. Meddyliwn a gweddïwn drosoch fel teulu.

**Gwrando eto**

I wrando ar ein hoedfaon ewch i Ebeneser Caerdydd ar YouTube, SoundCloud neu podlediad YPod.Cymru.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfrachiadau i Carys Mair Jones ar gael swydd rhan amser fel Gweithiwr Cynnal efo Smooth Start Plus. Mudiad yw hwn sy'n cynnig gwasanaeth cymorth i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## TABERNACL, YR AIS

**Cydymdeimlo.**

Cofiwn yn dyner am Awen Cray, priod Martin a mam Jonathan, Iwan a Nia. Bu'n amlwg yn y teulu, ei gwaith ac yn yr eglwys, ac o hyd yn gweithio'n ymroddedig er lles eraill.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Martell a Charles Williams, meibion Iris Williams, Aberteifi a'u teuluoedd ar achlysur ei marwolaeth hithau.

**Genedigaethau.**

Rhannwn lawenydd dau o deuluoedd yr eglwys wrth longyfarch Sion Lewis a'i briod Gwenno. Bydd Wyn a Megan Morris angen dod i arfer a chael eu hadnabod fel hen dadcu a mamgu Alun Meurig Lewis.

Yn yr un modd byddai Jean Evans wedi bod mor falch o fod yn hen famgu i Macsen Coe, sef mab Trystan a Becca allan yn Seland Newydd. Gallwn ddathlu gyda Mike a Cerian Coe yma yng Nghaerdydd ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf.

**Dyweddiad.**

Hyfryd oedd clywed am ddyweddiad Steffan Jones ac Elin Dimmick ar ddydd Nadolig a bod Hywel ac Eira Jones, ynghyd â Milton Jenkins, wedi dathlu'r achlysur drwy fwynhau cinio Nadolig yn eu cwmni.

**Adeilad y Capel**

Cwblhawyd y gwaith o beintio blaen y capel cyn y Nadolig ac mae'r ffordd yn agored bellach i ddatblygu'r gwaith adeiladu ar y ramp.

**Oedfa Radio Cymru.**

Gwahoddwyd pobl ifanc y Tabernacl i lunio oedfa bore Nadolig, gyda'r cyfraniadau unigol wedi eu recordio gan y BBC. Darlledwyd y gwasanaeth ar Radio Cymru, a gallwn ymfalchïo yn eu dyfeisgarwch hwy.

**Oedfaon mis Rhagfyr a Ionawr.**

Cynhaliwyd amrywiaeth o oedfaon yn ystod y ddau fis, a diolchwn i bawb a drefnodd y cyfan. Braf oedd cael dechrau'r Sul gydag oedfa gan ddefnyddio Zoom fel cyfrwng. Cytunwyd i'r oedfaon yn y capel gael eu cynnal ar nosweithiau Sul am 6.00pm tra bydd y cyfyngiadau presennol yn bodoli.

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Trefn mis Chwefror 2021:**

7 – Parchedig R. Alun Evans
14 – Delwyn Sion neu Ifan a Margaret Roberts
21 – Ifan a Margaret Roberts neu Delwyn Sion
28 – Gŵyl Ddewi'r Ysgol Sul

Pasiwyd deddfwriaeth newydd gan Senedd Ffrainc, a fydd yn diogelu 'treftadaeth synhwyraidd' [*sensory heritage*] ei chefn gwlad.

Daw hyn yn dilyn derbyn cwynion gan fewnfudwyr o'r dref i'r wlad am synau ac arogleuon cynhenid yr ardaloedd gwledig.

Bydd y "synau ac arogleuon" hyn, o'u diffinio a'u gwarchod, yn gymorth i osgoi anghydfod rhwng cymdogion, yn ôl Gweinidog Materion Gwledig Ffrainc.

A gofiwch am achos llys ceiliog o'r enw Maurice, yn 2019, wedi i'r cymdogion ym mhentref Saint-Pierre-d'Oleron, gwyno am ei glochdar plygeiniol?

Y ceiliog a orfu, a chafodd €1000 o iawndal.

Mae'n drist i gofnodi y bu farw Maurice druan cyn i'r ddeddfwriaeth ddiweddar gael ei chymeradwyo.

Stori ddiddorol, meddech, ond dim byd i wneud â Bethlehem GyG?

Onid diolch ddylem bod Bethlehem, a llawer llan tebyg, wedi bod yn hynod ffodus yn ei chyfeillion a'i chymdogion yn ystod y cyfnodau clo yma, er sicrhau bod yr arlwy o oedfaon a gynhelid gynt yn y capel o Sul i Sul, bellach yn cael eu darparu a'u darlledu'n uniongyrchol i'n hystafell fyw?

Ond er gwyched y ddarpariaeth, a mawr ein gwerthfawrogiad ohono, tybed a deimlwch fod 'na rhywbeth ar goll?

Dyna braf fydd hi ar fore Sul pan y byddwn unwaith eto yn gallu cyfarch ein gilydd ar ein ffordd i'r cwrdd, a chael sgwrs a phaned ar ddiwedd oedfa, cyn troi am adref am ginio.

Dyna braf pan y byddwn yn gallu canu'n hoff emynau, cyd-adrodd darnau o'r Ysgrythyr, amenio ambell sylw mewn pregeth, clywed adnodau'r plant, a'u siffrwd a'u chwerthin wrth iddynt droi am yr Ysgol Sul.

Oes, mae 'na lawer i'w ddweud am 'dreftadaeth synhwyraidd' yn does!

## EGLWYS Y CRWYS

Cafodd Eglwys y Crwys ergyd drom cyn y Nadolig ym marwolaeth yr Athro Ddr John Gwynfor Jones, gŵr annwyl, llawn hiwmor, ysgolhaig disglair a Christion cywir. Bu'n flaenor gweithgar a ffyddlon am flynyddoedd ac anrhydeddwyd ef gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel Llywydd y Gymdeithasfa. Mae'n cydymdeimlad dwysaf gyda'i briod Enid, a'r plant Eryl, Gareth ac Eleri a'u teuluoedd. Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei ôl. *(teyrnged t.17)*

Yna ddechrau Ionawr daeth y newyddion trist am golli Mrs Mallt Anderson. Cymeriad hoffus, bob amser gyda straeonon difyr i'w hadrodd. Roedd yn actores ddawnus a rhoes flynyddoedd o wasanaeth i Gymdeithas Ddrama Y Crwys. Mae ein meddyliau gyda'r plant Robin ac Arran a'u teuluoedd yn eu colled. *(teyrnged t.15)*

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Llewela Morris yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Lona Jones, a oedd mewn Cartref yn Llangollen.

Treuliodd Mr David Parry a Mr Douglas Griffiths gyfnodau yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda iddynt.

Daeth newyddion da hefyd gyda John a Mali Rowlands yn daid a nain ddwywaith mewn mis. Ganwyd Huw Gwilym Parry ddechrau Rhagfyr, mab i Elin a Meic a brawd i Enlli ac Ifan; ac yna ar noswyl Nadolig ganwyd Alun Meurig Lewis, mab i Gwenno a Siôn. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teuluoedd.

Cynhaliodd y Gymdeithas Oedfa Blwyddyn Newydd o dan arweiniad Ms Hannah Thomas. Diolch i Hannah a'r holl gyfranwyr am wasanaeth arbennig. Ymfalchïwn yn yn holl ddoniau'r Eglwys.

Cynhelir Myfyrdod o dan arweiniad y Gweinidog bob nos Fercher am 6.30 o'r gloch a diolch iddo am drefnu ar ein cyfer.

Mae Coffi ar Gamera yn parhau i fod yn boblogaidd bob bore Mawrth a bore Iau. Braf yw gweld wynebau a chael sgyrsiau difyr. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Bydd yr oedfaon yn ystod Chwefror yn parhau yn rhithiol. Gwasanaethir Oedfa Gymun o dan arweiniad y Gweinidog ar y 7fed; Yr Athro Ddr Eryl Wyn Davies ar y 14eg; Y Gweinidog ar yr 21ain a'r Parchg Robert Owen Griffiths ar yr 28ain. Mae croeso i bawb ymuno â ni yn yr oedfaon.

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn eich cyfarchion mwyaf gwresog at Euryn Ogwen gydag yntau mewn cyfnod blin o salwch.

Clywn bethau da am Harri, ein haelod hynaf, sy'n mwynhau lloches mewn cartref gofal ym Mhenarth. Cawsom dystiolaeth weledol o'i ddedwyddwch pan rannwyd fideo yn ddiweddar.

Er i Tomos Lewis fwriadu dychwelyd at ei waith a'i gartref yn Toronto ar 25 Ionawr, lle mae ar staff y cylchgrawn The Monocle, cafodd ei wrthod yn y maes awyr oherwydd diffyg yn y gwaith papur, profiad hollol newydd. Ni wyddys a oes cysylltiad yma gyda Brexit.

Cawsom ychydig o hanes teulu Joanna. Dymunwn yn dda iddi ar gyfer gwella'n fuan o'i hanffawd cas; llongyfarchwn Mali, merch Jo ac Aidan, ar enedigaeth merch yn Llundain, ddydd Sul, 24 Ionawr; llongyfarchwn Annes Elwy, ar ei mentergarwch, yng nghyfnod diffyg gwaith i actores, yn creu busnes bwyd (www.ybwrdd.com) (t.27 a 28), a deallwn fod mab y teulu, Osian, yn fodlon yn ei waith yn Llundain.

Dros y rhan fwyaf o fis Rhagfyr 2020 pleser i bawb oedd agor y Calendr Adfent yn ddyddiol. Dan ysbrydoliaeth Sianmeinir ac Emma, roedd 'ffenestr' bob dydd yn datgelu cyfraniad gwahanol, ar air ac ar gân, gan aelodau gwahanol. Bu'r weithgaredd nodedig hon yn fodd i ychwanedu at gronfa ein helusen am eleni, sef Achub y Plant. Hyd yma mae'r gronfa yn £1210 (£270 o Noson Grempog Chwefror 2020 a £940 o'r Calendr).

Yn ôl hen arfer dechreusom ein Gweithgarwch Tymor yr Adfent gyda chanu carolau, y tro hwn ar Sul, 29 Tachwedd. Oherwydd y cyfyngiadau Covid bu rhaid newid y lleoliad a mynd i iard Ysgol Gynradd Penygarth, mewn dau grŵp o geir ar ddau gyfnod amser. Roedd y tywydd yn 'finiog oer' (Emyn 470 W. Rhys Nicholas). Ychwanegwyd at flas yr achlysur wrth inni gynnwys dwy o garolau Euryn yn ein rhaglen. At hyn roedd ein cyfaill annwyl wedi llunio triban at yr achlysur,

> Camelod ddaeth â'r doethion
> A moliant ac anrhegion
> A heddiw dyma ni'n mwynhau
> Carolau ar olwynion.

Bu'n gweinidog yn ein tywys ym mhob Oedfa Zoom. Diolch iddo.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Christine James ar ennill cadair Eisteddfod Caerdydd 2021, (t.10). Derbyniodd ganmoliaeth uchel am ei cherddi gan y beirniaid Gruffudd Owen a Ceri Elen. Christine hefyd oedd Bardd y Mis Radio Cymru mis Rhagfyr. Darllenwyd un o'i cherddi 'Carol y Saer a'r Pren' yn rhaglen Naw Llith a Charol Radio Cymru 2020.

**Y Sefydliad Cristnogol**

Daeth Gareth Edwards atom i'r cwrdd gweddi i sôn am waith y 'Christian Institute', elusen Gristnogol sy'n ceisio amddiffyn gwirioneddau'r Beibl gan eu gweld yn awdurdod ar gyfer bywyd yn ei holl agweddau. Mae'r elusen yn ceisio ymateb i gwestiynau moesol ein dydd mewn meysydd megis addysg, bywyd y teulu a moesoldeb rhywiol i enwi rhai. Pwysleisiant ein bod fel Cristnogion yn oleuni ac yn halen yn y gymdeithas.
info@christian.org.uk

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Mae sesiynau Wyn James ar Zoom am 8 ar nos Iau wedi ail ddechrau. Y tymor hwn bydd Wyn yn ffocysu ar y Pêr Ganiedydd. Dechreuwyd drwy edrych ar ddetholiad o benillion o bregeth Efangelius yng ngherdd hir Pantycelyn, Theomemphus. Mae rhai o'r penillion yma yn ffurfio emynau cyfarwydd megis: 'Gwêl ar y croesbren acw gyfiawnder mawr y ne'. I ymuno e-bostiwch:
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Paned a Sgwrs**

Llawenydd oedd croesawu Catrin Lewis yn ddiweddar. Ar ôl blynyddoedd lawer gyda ni yn yr eglwys, mae Catrin â'i gŵr Gwydion bellach yn gyfrifol am ganolfan Mudiad Efengylaidd Cymru, Bryn y Groes yn Y Bala. Pwnc sgwrs Catrin oedd Lletygarwch Cristnogol. Cynigiodd 'Drws agored, llaw agored a chalon agored' fel un diffiniad o letygarwch gan gyfeirio at rai adnodau o'r Beibl sy'n help i ni wrth feddwl am y pwnc. Cofiwn fod Duw ei hun yn croesawu pawb ato.

Er ein bod ar hyn o bryd wedi'n cyfyngu'n fawr o safbwynt cynnig lletygarwch, eto i gyd cawn gyfle i gysylltu â rhai sy'n unig neu'n dioddef trwy'r godi'r ffôn neu phaned rhithiol dros Zoom neu Whats App.

Cawsom fore buddiol a heriol. Edrychwn ymlaen at yr amser pan gawn ymarfer lletygarwch eto.

## SALEM, TREGANNA

**Ysgol Sul Rhithwir**

Ers y flwyddyn newydd mae'r Ysgol Sul wedi ail-ddechrau ar Zoom, yn dilyn yr oedfa foreol. Hyfryd yw gallu cynnal sesiynau gyda'n plant unwaith eto, er bod y profiad yn dra gwahanol.

**Priodas**

Hyfryd yw llongyfarch Iona a Rheinallt Rees ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd i chi i'r dyfodol.

**Clwb y Bobl Ifanc a'r Clwb Coffi**

Nos Wener 15 Ionawr, cyfarfu'r bobl ifanc ar Zoom am gwis arall dan ofal y cwisfeistr penigamp, Dewi Rhisiart! Noson hwyliog iawn, diolch yn fawr! Daeth y clwb coffi at ei gilydd ar Zoom hefyd am goffi a chwmnïaeth.

**Gwasanaethau**

Diolch i bawb am eich cwmnïaeth yn ein hoedfaon dros y Nadolig, ac i nifer a fu'n brysur yn paratoi yr holl eitemau amrywiol, a'r Ddrama Geni ddigidol. Gwefreiddiol yn wir, a hyfryd oedd gallu parhau i ddathlu gyda'n gilydd er mewn ffordd mor wahanol i'r arfer. Diolch o galon!

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Bethan Whittall a Sandra Morgan. Mae'r ddwy ohonynt wedi colli brawd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn fawr hefyd ag Elin Wyn a Catrin Roberts. Mae'r ddwy wedi colli eu mamau.

Rydych i gyd yn ein meddyliau.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar ôl trefnu nifer o oedfaon yn y capel ar gyfer Rhagfyr ac Ionawr, siom oedd gorfod cau'r drysau unwaith eto oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Ond diolch i'n gweinidog y Parchg Evan Morgan, cawsom gyfle i addoli bob Sul, ynghyd ag aelodau Salem, trwy gyfrwng Zoom. Diolch i aelodau Salem am drefnu gwasanaeth goleuni arbennig ar 13 Rhagfyr. Cafwyd cyfraniadau gwych gan oedolion a phlant a chrëwyd naws gyda phob un ohonom yn cynnau cannwyll ar ddiwedd yr oedfa. Cynhaliwyd oedfa arbennig ar fore dydd Nadolig. Cynhelir Bore Coffi unwaith y mis ar Zoom, dan arweiniad Evan pan fydd cyfle i sgwrsio a chyfnewid newyddion.

Trist oedd clywed bod Gethin Matthews wedi colli ei dad yn ystod y misoedd diwethaf. Cydymdeimlwn yn ddwys ag ef a'i deulu.

Anfonwn ein cofion at ffrindiau sy'n methu ymuno â ni ar Zoom.

Am nawr bydd yr oedfaon yn parhau ar Zoom ac rydym yn ddiolchgar iawn amdanynt ac am gefnogaeth ac arweiniad ein gweinidog.

## DYDD GWEDDI'R BYD 2021

**Cylch Caerdydd**

Fel arfer cynhelir Dydd Gweddi'r Byd yn flynyddol ar ddechrau mis Mawrth. Yn ddelfrydol 5 Mawrth, 2021 y dylem fod yn trefnu ein gwasanaeth yma yng Nghaerdydd. Oherwydd y pandemig mae swyddogion Cylch Caerdydd wedi penderfynu gohirio'r gwasanaeth a'i gynnal pan fydd canllawiau'r llywodraeth yn caniatau mwy o ryddid i ni ddod at ein gilydd.

Dydd Gweddi'r Byd yw'r symudiad eciwmenaidd mwyaf yn y byd gyda chymaint o enwadau gwahanol yn cymryd rhan. Mae'n rhyfeddol meddwl fod ein gwasanaeth ni ar Ddydd Gweddi'r Byd yn rhan o rywbeth llawer mwy. Mae'n hyfryd sylweddoli fod yna don o wasanaethau gweddi, ar yr un thema, yn cael eu cynnal ledled y byd ar yr un diwrnod ym mis Mawrth.

Lluniwyd y gwasanaeth eleni gan Chwiorydd Cristnogol Vanuatu. Clwstwr o 80 o ynysoedd gwasgarog yw Vanuatu ychydig dros 1,100 o filltiroedd i'r dwyrain o Awstralia yn ne-orllewin y Môr Tawel. Thema'r oedfa eleni yw 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'. Gan bod ynysoedd Vanuatu ym mharth seiclonau trofannol De'r Môr Tawel, mae'r trigolion yn deall pwysigrwydd adeiladu ar sylfaen gref oherwydd yr holl ddinistr mae'r seiclonau wedi achosi ar yr ynysoedd. Eleni cawn rannu gweddiau mae merched hyderus a phenderfynol Vanuatu wedi paratoi.

Edrychwn ymlaen i gyfnod pan fyddwn yn gallu trefnu'r gwasanaeth yma yng Nghaerdydd.

---

Caban

Roedd wythnos gynta eleni yn garreg filltir fawr yn ein tŷ ni. Roeddwn yn 60; Owen, y mab hyna yn 18 a deuthum yn berchennog siop lyfra! Pan fo'n nghyfoedion yn ystyried ymddeol, dyma fi'n dechrau ar fenter newydd. Dewr neu wirion? *The jury's out* chwedl y Sais. Mae'r ymateb bendigedig i'r newyddion na fyddai'r siop yn cau wedi bod yn galonogol dros ben.



Ar ôl treulio deugain mlynedd yn teithio i bedwar ban byd gyda fy ffidil yn gwmni, dyma dipyn o newid byd ac nid dyma'r adeg gorau i gymryd yr awennau a'r siop ar gau i'r cyhoedd ond dwi'n ffyddiog, pan gawn agor eto, y daw darllenwyr brwd Caerdydd a thu hwnt yn ôl. Bu gwerthiant llyfrau ar i fyny dros y tair mlynedd diwethaf ac yn enwedig llynedd. Does dim byd fel pandemig neu ddirwasgiad i gymell pobl i ddianc ac ymgolli mewn stori dda.

Yn sgil y pandemig, daethom i werthfawrogi a chefnogi'n siopau bach lleol sydd wedi brwydro'n galed i oroesi'r cyfnod heriol hwn, ac o'r diwedd rydym yn fwy parod nag erioed i droi ein cefnau ar gewri'r we a'r archfarchnadoedd.

Fel cwsmer, roedd Caban yn fwy na siop lyfrau a werthai gardiau ac anrhegion. Yno byddwn yn siwr o ddod ar draws wyneb cyfarwydd a chael sgwrs ddifyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly edrychaf ymlaen at ail-osod y soffa ledr o dan y ffenest a'ch croesawu am baned a chlonc. (Yn y cyfamser, croeso i chi archebu ar y ffôn neu trwy e-bost.)

Dewr neu wirion? Cewch benderfynu. *Elin Edwards*

*Gol. A phob dymuniad da i Elin Edwards.*

# Cwmni'r Dysgwyr

*Mae Zoom wedi bod yn gaffaeliad mawr i ddysgwyr.*



**Gair gan Steve Bale**

Steve Bale yw fy enw, dysgwr Cymraeg brwdfrydig. Ron i yn ohebydd rygbi yn Fleet Street am ddegawdau ac yna i'r *Sunday Times* yng Nghymru cyn ymddeol.

Yr obsesiwn ar ôl i fi orffen gyda'r papurau oedd yr iaith ac rwyf i wedi cyrraedd Lefel Uwch yn y dosbarth tair blynedd yn ddiweddarach. Ond nid dosbarthiadau yw'r peth pwysica er mwyn dysgu Cymraeg. Yn ogystal, rhaid cymryd pob cyfle i'w defnyddio hi – ymarfer a gwella y tu allan i'r gwersi, gorau po fwya heriol. Ron i mor lwcus bod Shân Cothi wedi fy nghyfweld ar Radio Cymru am fy mhrofiad dysgu Cymraeg a hanes fy ngyrfa. Roedd yn brofiad gwych i fagu hyder yn yr iaith. Erbyn hyn, golygydd *Y Dinesydd* yw'r un sy'n rhoi'r ymarfer gorau i fi. Diolch, Gwilym!

*Diolch Steve – mor enwog nawr â Janet Tabor sydd hefyd wedi sgwrsio gyda Shân Cothi ac ysgrifennu gair yn Y Dinesydd!*



**Cyfweliad gydag Ashleigh Hurford – Tiwtor Cymraeg i Oedolion**

**O ble rwyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Rwy'n dod o Gaerffili.

**Ers pryd wyt ti wedi bod yn diwtor Cymraeg i Oedolion?**
Rwy'n diwtor ers 2010.

**Dwedwch dipyn bach am eich siwrne yn y maes.**

Ar ôl cwblhau gradd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, gwnes i gwrs hyfforddiant fel tiwtor Cymraeg i Oedolion. Roeddwn yn gweithio'n rhan amser i ddechrau, gan ddysgu dosbarthiadau nos ochr yn ochr â'm swydd llawn amser mewn swyddfa. Dros y blynyddoedd, roeddwn yn chwilio am fwy a mwy o gyfleoedd i ddysgu ac rwyf bellach yn gweithio i Dysgu Cymraeg Caerdydd yn llawn amser. Rwy' wedi dysgu dosbarthiadau mewn nifer o leoliadau gwahanol a diddorol, ac wedi cwrdd â llawer o bobl.

**Pam benderfynaist ti dy fod eisiau bod yn diwtor Cymraeg?**

Fy ail iaith yw'r Gymraeg ac rwy'n falch iawn o allu ei siarad. Roeddwn i eisiau helpu pobl eraill fel fi a oedd eisiau dod yn siaradwyr Cymraeg.

## Gwilym Dafydd



**Beth wyt ti'n mwynhau am fod yn diwtor?**

Mae'r gwaith yn amrywiol ac yn ddiddorol iawn. Rwy'n cwrdd â phobl o bob oedran ac o bob cefndir. Rwy'n gweld dysgwyr yn gwneud cynnydd o wythnos i wythnos ac yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd – mae'n ddigon i godi calon!

**Sut brofiad yw dysgu ar-lein yn ystod y pandemig?**

Mae dysgu ar-lein trwy'r pandemig wedi bod yn wych. Rydym mor lwcus bod y dechnoleg yn bodoli i'n galluogi i barhau gyda'r gwersi, ac rwy' wedi dysgu llwyth o sgiliau newydd. Rwy'n gwybod bod ein dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu dros y we ac i gwrdd â ffrindiau newydd. Mae pobl o bedwar ban byd yn dysgu gyda ni!

**Beth yw dy gyngor di ar gyfer rhywun sydd yn ystyried bod yn diwtor?**

Ewch amdani! Mae'n fraint cael dysgu'r iaith a chwrdd â chymaint o bobl. Mae'n gallu bod yn swydd hyblyg, gyda digon o gyfleoedd i gael gyrfa dda yn y maes ac mae'r tîm cyfan mor gefnogol. Mae'r gwaith yn rhoi cymaint o foddhad.

**Gair gan Isobel Carter**

Ers y cyfnod cloi cyntaf, mae grŵp Cymraeg Snails wedi newid a datblygu i fod yn grŵp Cymraeg Rhyngwladol Zoom. Mae Zoom yn golygu ein bod yn gallu cynnwys aelodau bywiog a dawnus o Awstralia a Lloegr. Yr anfantais yw ein bod wedi colli rhai sydd ddim yn gallu ymdopi â'r dechnoleg. Y golled fwyaf i'r grŵp ac i'r unigolion yn bersonol, oedd marwolaeth Hugh Mathews. Bu Hugh yn cynorthwyo'r grŵp dros nifer o flynyddoedd a byddwn yn gweld eisiau ei athrylith, ei hiwmor a'i wybodaeth enfawr am yr iaith. Yn nodweddiadol o Hugh, yr oedd yn gwybod na fyddai gyda ni am gyfnod hir ac roedd yn poeni am y grŵp. O ganlyniad gofynnodd i Linda Gruffudd i'n cynorthwyo ni. Yr ydym yn ddiolchgar iddi am ei dawn a'i chyfeillgarwch diffwdan â nifer o bobl nad oedd wedi cwrdd erioed o'r blaen - a hynny ar Zoom!

**Gair gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg**

*Ydych chi'n siarad Cymraeg ac yn mwynhau bod yng nghwmni pobl? Os felly, beth am ystyried gweithio fel Tiwtor Cymraeg i Oedolion gyda Dysgu Cymraeg Caerdydd. Rydym yn dysgu o 8am-9pm a gallwch weithio cyn lleied neu gymaint ag yr ydych yn dymuno. Brwdfrydedd yw'r prif ofyniad felly peidiwch â phoeni os nad oes gennych gymhwyster dysgu. Cynigir hyfforddiant llawn a chefnogaeth gyson.*

*Os oes diddordeb gyda chi yna croeso i chi gysylltu gyda ni: ewch i dysgucymraeg.cymru*

# Pobol y Rhigwm

Blwyddyn Newydd Dda i'r rhigymwyr gan obeithio y cawn ni flwyddyn well yn 2021. Y dasg cyn y Nadolig (Tasg 39) oedd gweithio triban beddargraff i 2020 i ffarwelio â llynedd. Gwynt teg ar ei hôl. Dyma'r 23 gorau yn nhrefn derbyn.

1. **Twm Path**
Palu'n ddi-baid wna'i heno
fel 'nes i ddo ac echddo,
a'i thwlu lawr i'r grombil ddu
i'w chladdu heb ffarwelio.

2. **Clennig**
Mor hir bu'r wlad yn dawel,
yn gêl rhag gelyn anwel.
Dymunwn ddydd ei fynd ymaith
a gobaith ar y gorwel.

3. **Calan 2021**
Fel bleiddast dest i'n llarpio
Â'th bawen fain i'n creithio.
Y frech roes ball i'th frath a'th glwy'.
Ni chlywir mwy dy udo.

4. **Yma o hyd**
Hen ast o flwyddyn oedd hi!
Mae'n dda cael cefnu arni.
Ond cofio wnawn am bawb, ryw fodd,
A'n helpodd i ddod trwyddi.

5. **Ie Wir!**
Blwyddyn gofid y Cofid;
Blwyddyn colli ein rhyddid,
A blwyddyn dda i wneud i ddyn
Ymdrin â breuder bywyd.

6. **Cantor Noethdin** *(ar ôl gwylio'r rhaglen Nos Galan ar S4C)*
Mae'n hoff gan rai benole
A'u gweld nhw mewn calendre!
Ond wedi'r hwyl a'r sbort a'r sbri,
Dy ben ôl di o'dd ore!

7. **Ta Ta!**
Peth anodd yw ffarwelio
Heb gusan na chofleidio,
Ond ti gest fynd heb glod na bri
A da 'da fi d'anghofio.

8. **Yr heliwr**
Ffarwél, ddwy fil ac ugain,
'R hen fultur creulon, milain.
Dy ysglyfaethu ddaeth i ben:
Ein hoesol sen dy feddfaen.

9. **Y protestiwr**
Amhriodol d'angladd, 'leni!
Dy rawd sydd heb ddibennu.
'R hen fwgan: byddi eto'n fyw
Tra erys briw'r galaru.

10. **Yr heriwr**
Pe baet, a'r claddu drosodd,
Yn plagio'n cof o'n hanfodd,
O'n bodd fe atgyfodwn ni
Ôl 'r arwyr cu a'n tendiodd.

11. **Y realydd**
Aflwydd o flwyddyn fuost.
I ebargofiant aethost.
Ond nid cyn sathru'n hunan-dyb
A thorri crib ein hymffrost.

12. **Vivaldi**
Dy wanwyn drodd yn wenwyn!
Hagrwyd dy haf hirfelyn!
Dy hydre'n hallt, dy aea'n glwm:
'Fath boendod llwm o flwyddyn!

13. **Hwyl a Fflag (i)**
Fe dda'th dy ddiwedd melys;
Disgwyliem hyn yn awchus.
Ond wedyn, nid dy fai di o'dd
Bod clefyd wedi'th ddewis.

14. **Hwyl a Fflag (ii)**
'Na gyd glywes i o'dd cwyno
Nes y 'mod i wedi danto.
Ych a fi, wi' n falch i fynd
A thwll dy din di Ffaro!

15. **Hwyl a Fflag (iii)**
'W i'n mynd, 'w i wedi blino
Ces ddeuddeg mis o ddanto.
Ond yn angof ni chaf fod
Am hyn 'w i'n folon 'beto'!

16. **Hwyl a Fflag (iv)**
Ond y'ch chi i gyd yn sili
Yn llawenychu heddi.
Bydd blas ohono i ar ôl;
Gall hwnnw atgyfodi!

17. **Holwr**
Nid anodd oedd ffarwelio
Â'r flwyddyn fu'n llawn wylo;
Yng ngafael galar sy'n parhau,
Pwy all yn glau anghofio?

18. **Brechlyn**
Y cyfnod clo'n rhwystredig,
yn sbwylio ein Nadolig.
Drw'r flwyddyn ro'dd angylion glân
yn llinell fla'n pandemig.

19. **Ward 7**
Rhyw feirws bach yn Tsieina
a drodd yn llif, yn foddfa.
Os clo sydd yn ein gwasgu'n dynn,
y brechlyn yw'r allanfa.

20. **Cawlach**
Rhyw feirws bach yn Tsieina
a drodd yn llif, yn foddfa.
Dangosodd Boris ei wir ddawn:
marwdai'n llawn i'r eitha.

21. **Trefnydd angladde**
'Mân feirws sydd yn Tseina,'
hwn oedd y pennawd cynta.
Dymunem flwyddyn newydd dda
cyn pla achosodd laddfa.

22. **Y munude ola**
'Y ngeirie'n annigonol
wa'th haint fel storm ysgubol.
"Ma' cyfle i chi ddweud ffarwél,"
medd angel yn derfynol.

23. **Perthyn**
Bu'n flwyddyn anodd hynod,
Ond er ei siom a'i chysgod
Fe gafodd rhai, drwy'i misoedd hir,
Y ddawn i wir adnabod.

Mae'n amlwg fod y testun wedi sbarduno'r rhigymwyr, a digon o amser hamdden i fwrw pen i bapur ganddynt. Mae'r rhan fwyaf yn cadw at ofynion triban – mydr rheolaidd ac odl gyrch rhwng diwedd y drydedd linell a chanol y llinell olaf. Ychydig yn gloff eu mydr yw ambell gynnig: rhifau 1, 2, 5, 9, 11, 12, 14 a 21; anghofiodd rhif 16 gynnwys odl gyrch.

Heblaw hynny, mae'r tribannau'n swynol ac wedi'u gweithio'n gelfydd. Rhaid felly oedd edrych am y syniad gwreiddiol, y rhai heb fod yn ystrydebol ac yn dweud rhywbeth ychydig yn wahanol i'r disgwyl. Un o'r rhai sydd wedi cael syniad gwreiddiol a'i fynegi yw rhif 18: yn lle angylion y Nadolig, angylion y pandemig a welwyd yn rheng flaen yr ysbytai. Yr unig driban i geisio bod yn ddoniol yw'r Cantor Noethdin, a gafodd wefr o wylio rhai o gantorion amlycaf Cymru'n amlygu … eu hunain ar y teledu ar Nos Calan.

Felly'r Cantor biau'r wobr gyntaf, gyda diolch am beri chwerthin ac am gyflwyno ansoddair newydd i'r iaith Gymraeg. Diolch hefyd i bawb am gystadlu.

**Enillydd tasg rhif 39 yw**
**Dafi Dafis, Aberteifi**

Y dasg i'r rhigymwyr erbyn y tro nesaf fydd llunio limrig yn cynnwys y llinell hon: ***Bydd angen gofalu amdanaf/amdano/amdani*** – cewch ddewis y gair ar y diwedd, fel y mynnoch.

Anfonwch eich cynigion, yn ôl yr arfer, at bryan.val.james@gmail.com erbyn **20 Chwefror.**

*Emyr Davies*

# Gwylio'r Geiniog

*Pethau i'w hystyried ar ddechrau blwyddyn*

## Huw Aled Accountants



1. Rhai materion ariannol i'w hystyried ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd:

   i. Defnyddiwch wefannau cymharu ar gyfer costau megis yswiriant cartref. Gall dyfynbris ar gyfer y rhai sy'n adnewyddu gyda'r un darparwr bob blwyddyn fod yn chwerthinllyd o uchel.

   ii. Gyda chyfradd llog sylfaenol Banc Lloegr dal ar 0.1%, ymchwiliwch os oes modd i chi gael cyfradd llog gwell ar eich morgais.

   iii. Nid oes ewyllys ddilys gan fwy na hanner o oedolion. Ydych chi'n un ohonyn nhw?

2. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newid i reolau Treth Trafodiad Tir (*Land Transaction Tax*) lle mae'r canran ychwanegol sy'n daladwy ar ail gartrefi bellach yn dechrau ar 4% ar gyfer cartrefi gwerth hyd at £180,000 ac yn codi ar raddfa ar gyfer tai drytach.

3. Yn dilyn y twf diweddar ym mhris Bitcoin, mae nifer o gwmnïau sgam wedi'u sefydlu i geisio denu unigolion i fuddsoddi yn Bitcoin trwy eu gwefannau. Byddwch yn ofalus iawn wrth fuddsoddi a sicrhewch bod y cwmni yn gyfreithlon. Mae'n hawdd iawn prynu Bitcoin ond gall fod yn anodd iawn ei werthu. Nid oes iawndal a gallwch golli 100% o'ch arian.

**Cwestiynau Huw ac Aled:**

*Fel unigolyn hunangyflogedig, rwyf wedi derbyn grantiau yn ystod y pandemig er mwyn cefnogi fy musnes. A yw'r grantiau hyn yn drethadwy?*

Mae nifer sylweddol o grantiau wedi bod ar gael oddi wrth wahanol sefydliadau yn ystod y pandemig.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r grantiau hyn, gan gynnwys cynlluniau cymorth y Llywodraeth fel y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth, yn drethadwy ac mae angen eu cynnwys ar eich ffurflen dreth. Fodd bynnag, os ydych wedi cwympo ar amseroedd caled ac wedi cael cyllid o gronfeydd cymorth (*hardship funds*) a gynigir gan sefydliadau anllywodraethol, efallai na fydd y rhain yn drethadwy.

Er mwyn gwirio os yw cyllid grant yn drethadwy neu beidio, rhaid adolygu telerau ac amodau contract y grant yn fanwl. Cysylltwch â'ch cyfrifydd.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni trwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

## RHUN DAFYDD

**Llywydd Newydd Cymdeithas y Cymod**

Cefais fy magu ar gyrion y Bontfaen, bro Iolo Morganwg, un o heddychwyr mwyaf ein cenedl. Trosglwyddwyd y credoau heddwch i mi ar yr aelwyd cyn i mi fedru dysgu mwy amdanynt tra ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cyfrifaf fy hun yn lwcus i fod yn ymwybodol o dangnefedd a'r ffordd ddi-drais ers yn ifanc gan nad yw heddychiaeth yn rhan o'n system addysg, sy'n siom gan fod Cymru yn genedl sydd â'i hanes yn frith o heddychwyr. Cofier na enir yr un plentyn yn dreisgar, felly mae heddychiaeth fewnol yn rhan o bawb. Dylanwadau allanol sy'n creu dinistr.




Dechreuais ymddiddori yng Nghymdeithas y Cymod tra'n Llywydd yr Urdd yn 2015, lle cefais y cyfle i godi proffil gwaith dyngarol y mudiad. O ganlyniad cynrychiolais y Gymdeithas yng nghyfarfod blynyddol canghennau Ewropeaidd y Cymod a bu hyn yn agoriad llygaid i'r modd y gallwn arwain at greu byd di-drais. Ers sawl blwyddyn bellach bûm ar bwyllgor gwaith y Gymdeithas ac yn bennaf yn helpu gyda'r ochr gyfathrebu sy'n hynod o bwysig er mwyn codi proffil heddwch a dangos yr anghyfiawnder sy'n gysylltiedig â thrais a rhyfel. Mae'n rhaid cofio bod pob rhyfel yn gorffen gyda thrafodaeth ac yn y bôn nad yw trais yn cyflawni dim.

O ran Cymdeithas y Cymod mae'n gyfnod hynod o gyffrous wrth i'n haelodaeth a'n cyrhaeddiad dyfu. Er mwyn creu Cymru well mae'n angenrheidiol bod heddychiaeth yn ganolbwynt i'r siwrnai ac yn ateb realistig i nifer o heriau a wynebwn fel cenedl. Ond, nid rhywbeth hawdd yw heddychiaeth ac yn aml dyma'r rheswm bod dynolryw yn penderfynu troi at yr opsiwn haws o drais. Mae'n bwysig, felly, bod y Gymdeithas a ni fel dinasyddion yn dal ati i weithredu er budd ein planed. Dros y misoedd nesaf byddwn yn parhau i ymgyrchu i atal recriwtio plant i'r fyddin yn y DU, yn gwrthwynebu'r amgueddfa filwrol ym Mae Caerdydd ac yn cadw llygaid ar drachwant anfoesol y Diwydiant Arfau y mae'r DU yn rhan mor ganolog ohono.

Ymunwch ar y daith i greu Cymru ddi-drais trwy ymaelodi ar ein gwefan a dilyn ein cyfrifon cymdeithasol! https://www.cymdeithasycymod.cymru

# Cyfweliad ag Annes Elwy
# Y Bwrdd

Ymysg y meysydd i gael eu taro yn fwy nag eraill gan y pandemig mae'r celfyddydau a'r sector bwytai. Ond dros y flwyddyn eithriadol a fu profodd un actores lwyddiant ryfeddol wrth ganfod ysbrydoliaeth yn y gegin – a'i gorffennol. Lowri Haf Cooke fu'n sgwrsio ar ran *Y Dinesydd* gyda'r actores o Benarth, Annes Elwy.



Yn ystod wythnos olaf mis Ionawr roedd Annes Elwy yn llawn bwrlwm ar gyfer bwydlen Y Bwrdd – ei chwmni 'bwyd cartref' sy'n cludo i dai cwsmeriaid yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. "Ma na dipyn o fynd ar fy nghacen cariad Persiaidd ar gyfer Santes Dwynwen, a dwi am geisio gwneud *blood orange curd* gan bod gen i ormodedd o wyau, yna dwi am bobi *hot cross buns* cyn bo hir." Lai na blwyddyn yn ôl, roedd ganddi ragbrawf yn theatr y Royal Court yn Llundain, ac newydd fwynhau dangosiad o'i ffilm newydd *Gwledd* pan gyhoeddwyd y clo mawr cyntaf.

Oedodd popeth ar unwaith, ac - fel yn achos pawb arall - doedd dim dewis gan Annes ond aros gartre. Ond bu profiad bywyd cynharach o fudd i'r actores ifanc wrth ddelio ag argyfwng nas profwyd o'r blaen. "Pan o'n i'n blentyn es i'n sâl iawn efo *'glandular fever'* a *'chronic fatigue',* a cholli saith mlynedd o ysgol. Dwi'm yn gwbod be wnaeth ei achosi fo, ond bwyd yn bendant nath fy helpu i allan ohono fo, a rwan dwi'n hollol iawn." Yn ferch i berchnogion siop Pencerdd, Penarth, ar y pryd (ac yn or-nith i'r delynores Nansi Richards), dychwelodd Annes i Ysgol Bro Morgannwg, y Barri, ar gyfer Blwyddyn 12 gyda'i bryd ar fynd yn actores – ei breuddwyd ers yn ferch fach. *"Wrth reswm, ar y pryd doedd gen i ddim hyder o gwbl, ond dyna pryd ddaeth Mrs Lowri Cynan yn athrawes arna i, a nes i sylweddoli cymaint o'n i'n dwlu ar actio. Mae o'n rhoi cymaint o gyfle i chi fod yn gymeriad gwahanol, ac eistedd efo teimladau trist neu nerfus neu beth bynnag, a pheidio gorfod eu cuddio fel ydach chi'n gwneud mewn bywyd go-iawn".

Arweiniodd hynny at dair blynedd yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, gan raddio yn 2014. Ymhen dim, aeth o berfformio ar lwyfan theatr y Sherman, Caerdydd (yng nghynhyrchiad *Fe Ddaw'r Byd i Ben* gan Dafydd James) i set ei ffilm gyntaf, *Yr Ymadawiad* (*The Passing*) ar y cyd â Dyfan Dwyfor a Mark Lewis Jones. Symudodd i Lundain at ei chwaer, y cerddor Mali Llywelyn (aelod o grwpiau Radio Luxembourg a Race Horses gynt, ac Aldous Harding erbyn hyn), lle cafodd waith fel gweinyddes tra'n mynychu clyweliadau. Yna yn 2017, enillodd ran flaenllaw Beth March yng nghynhyrchiad y BBC o nofel glasurol *Little Women* ar y cyd â Maya Hawke ac Emily Watson. Creodd Annes argraff fawr, gan ennill enwebiad BAFTA Cymru 2018 am ei rhan fel y chwaer fach annwyl ond fregus ei hiechyd.

"Oedd o'n glyweliad hawdd a dweud a gwir a dwi'n meddwl oherwydd fy hanes efo salwch pan o'n i'n iau, o'n i'n ffeindio bod [Beth] yn gymeriad hawdd i syrthio mewn iddo. Dwi'n meddwl bod y salwch yn bendant wedi ngwneud i'n annibynnol iawn, ac mae o 'di'n helpu i o ran actio. Ond hefyd, dwi'n gwbod sut i gynnal fy hun pan dwi ar ben fy hun, a phan dwi gartre ar ben fy hun, felly mae o wedi fy helpu i ymdopi efo argyfwng COVID. Da chi'n gorfod bod yn hapus pan da chi'n treulio cymaint o amser ar eich pen eich hunain, ac fel actorion da ni allan o waith yn aml beth bynnag!"

Rhwng cynhyrchiad *Little Women* a'r gyfres dditectif *Craith* (*Hidden*) ar S4C / BBC Cymru, roedd Annes yn weinyddes ym mwyty Louie Louie yn Llundain, dan arweiniad y cogydd Oded Oren o Tel Aviv. Ac yn ystod ei hamser sbâr roedd hi wrth ei bodd yn arbrofi â blasau'r Dwyrain Canol yn y gegin. Yna tra'n sgwrsio yn Sesiwn Fawr Dolgellau yn 2018, cafodd ei hannog gan ffrind i ddechrau 'clwb swper' Y Bwrdd. "O'n i'n mynychu clybiau swper yn rheolaidd yn Llundain, a doedd o ddim wir yn beth cyffredin yng Nghaerdydd ar y pryd. Naethon ni gynnal y clwb swper cyntaf ym Mhontcanna ym mis Medi - oedd o wir yn hwyl, a lot haws nag o'n i'n meddwl. Oedd o jyst fel coginio ar gyfer 30 o bobol gartre!"

Dechreuodd Annes wrth ei thraed gan baratoi seigiau o'r Dwyrain Canol, cyn magu hyder, ehangu'r fwydlen a darganfod pa seigiau oedd yn hawdd i'w paratoi o flaen llaw. "Nes i hefyd weithio allan be o'n i'n teimlo fel bwyta, achos pan wyt ti'n paratoi gwleddoedd mae'n rhaid i ti brofi'r bwyd dy hun. Yr unig ffordd wnaiff pobol eraill fwynhau eich bwyd chi ydy os da chi'n ei fwynhau o hefyd."

Bob rhyw ddeufis, rhwng gwaith actio a chlyweliadau yn Llundain, cynhaliodd Annes glybiau swper ledled y ddinas, yng nghaffis Lufkin a Wild Thing yn Grangetown, a gwleddoedd Nadolig yng ngharte'r teulu ym Mhenarth. Yna daeth popeth i stop. "Pan laniodd COVID do'n i ddim yn gallu actio, a do'n i ddim wir yn meddwl y baswn i'n gallu coginio. Do'n i ddim yn gweld sut fasa na farchnad ar gyfer fy nghoginio, a do'n i ddim isio dwyn busnes gan fy hoff fwytai lleol. Nath o ddim croesi fy meddwl am fisoedd a dweud y gwir, tan i ffrind i mi ddweud ei bod hi wir yn gweld isio mynd am *'brunch'*. Felly fel 'trît' iddi hi, nes i baratoi jariau o granola a photeli sudd. Nath hi rannu lluniau ohonynt ar instagram, ac fel sy'n digwydd ar y cyfrwng cymdeithasol hwnnw, nath o jyst ledaenu.'

Lledaenu yn wir. Datblygodd y fwydlen o baratoi brecwastiau a the prynhawn i giniawau a swperau – 'bocsys bistro' dau gwrs – hyd at gyfnod prysur dros y Nadolig yn gwerthu'i chynnyrch ym marchnadoedd ffermwyr amrywiol y ddinas. "Y brecwastiau yn bendant sy'n gwerthu orau. Ond dwi hefyd yn pobi lot o gacennau gwahanol, pethau llai traddodiadol sy'n

gwneud defnydd o gynnyrch tymhorol – er enghraifft, mae'r gacen riwbob, rhosmari a marmalêd yn boblogaidd iawn."


Wedi ysbaid dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd, mae Annes yn llawn syniadau ar gyfer ei chwmni eleni. "Dwi'n despret i fynd nôl i'r theatr, ond dwi'n gwbod mai Y Bwrdd fydd yn fy nhynnal i flwyddyn yma. Dwi'n teimlo'n reit bositif a dweud y gwir, ma pethe yn argoeli'n dda." Yn wir, un o'r 'pethe' hynny yw'r 'ffilm arswyd amgylcheddol' *Gwledd*, a gynhyrchwyd ym mis Awst a Medi 2019, dan gyfarwyddyd Lee Haven Jones. Yn ôl Annes, mae'r stori'n dilyn teulu Cymraeg cefnog sydd eisiau elwa o'u tir ym Mro Morgannwg, ac sy'n cael eu cosbi gan rymoedd chwedlonol. "Dwi'n chwarae gweinyddes o'r enw Cadi sy'n helpu i gynnal y parti bwyd, ac yn amlwg fi sy'n dod â'r drwg at y tŷ! Mae o'n ffilm anhygoel - da chi erioed wedi gweld unrhywbeth tebyg yn y Gymraeg o'r blaen. Dwi'm yn gallu aros i'r bobol ei weld o!"


Y bwriad ar hyn o bryd yw rhyddhau'r ffilm mewn sinemau ym Mhrydain a'r Unol Daleithiau yn ystod tymor yr Hydref. Ond yn y cyfamser, fel yr eglura Annes, mae na wledd tipyn mwy dymunol ar gynnig gan Y Bwrdd, sydd wedi taro deuddeg â chwsmeriaid lleol. "Rwan bo ni ddim yn gallu mynd allan a gwario'n pres mor aml dwi'n meddwl bod pobol yn licio prynu pethe neis i fwyta yn y tŷ, achos ar hyn o bryd, dyna un o'r unig bleserau sydd ar gael i ni gyd. Mae o mor llesol i ni fwynhau bwyd o ansawdd da, ac mae'n hawdd cyfiawnhau prynu bwyd gan gwmnïau annibynnol. Mae'n ffordd hyfryd o ofalu am ein gilydd – a ni'n hunain - ar hyn o bryd."

*Lowri Haf Cooke*

---

## Rhif: 210




### Ar Draws

7. '----- ben y ddraig
   Ein craig yw Crist' (PJ) (6)
8. Llef yn dal amser cyn mynd drosodd (6)
10. Cymryd seibiant wrth gwr y ffos o bosib (7)
11. 'Yn ----- i maes y gwenwyn
    A roes y sarff i mi' (WW) (5)
12. Gwasgu'r trosol i'r cert (4)
13. Ymhlith y cyntaf i achwyn mae'r gwael (5)
17. Rhywbeth i'r droed sy'n sionc i'r glust (5)
18. Erlid yr hael (4)
22. Yn dychwel ar ruthr enbyd i gryfhau (5)
23. Brecha'r cyntaf o'r elyrch ger Pwllheli (7)
24. Aderyn Manaw mewn tywydd garw (6)
25. 'Wyt ----- yn oer
    A'th farrug yn wyn' (EW) (6)

### I Lawr

1. Dal y colledig (7)
2. Dydd nodi dŵr gwyllt (7)
3. Y dringwr o'r wig (5)
4. 'Ond troes y merddwr cyn y wawr
   Fel llawr i blas ----- -----' (EW) (1,6)
5. Tewhau ar ôl dechrau prynu eitemau seimlyd gwael iawn (5)
6. 'Clodforaf enw Brenin nef,
   Mae ynddo ef bob -----' (Anad) (5)
9. '----- ----- ----- a'r lafant pêr,
   A llwyn o focs ynghwsg' (WCW) (1,5,3,)
14. Gwaith myfyrwyr a lle i arlunio yn Lloegr (7)
15. Amodau tynnu pum cant o'r bocs a rhoi canol arall yn eu lle (7)
16. Can cais ar y tro yn caethiwo (7)
19. Chwyth sy'n gallu tocio llwyn (5)
20. Bardd y croesau (5)
21. Mae ef yn dod i mewn i'r seremoni (5)

**Enillydd Croesair Rhif 208**

**Richard E. Huws, Bontgoch, Ceredigion**

**Atebion Croesair Rhif 208**

**Ar Draws:** 1. Addef 8. Y materolwr 9. Lloc y wasg 10. Bitw 12 Y di-dâl 14. Llwydlo 15. Glanfa 17. Afonydd 18. Dial 19 Trugaredd 21. Debyg iddo fe 22. Grug

**I Lawr:** 2. Ddim ond clai 3. Fyny 4. Gafael 5. Oergell 6. Gorbwyso 7. Draw 11. Talcymerau 13. Dynolryw 16. Artaith 17. Anudon 18. Dadl 20. Ateg

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

# Bwyd Merch y Ddinas

*Beth am brofiad gwahanol?*

**Lowri Haf Cooke**



Blwyddyn newydd dda gyfeillion, a gobeithio eich bod chi gyd yn cadw'n dda. Mae'r 'trydydd clo' hwn yn dipyn o fwrn, felly dwi wir yn dymuno'n dda iawn i bawb. Fel nifer fawr o bobol, dwi'n dal i weithio o gartre, a mynd am dro o amgylch y parc; yn darllen, coginio, cysylltu a ffridiau a – gyda'm chwiorydd - yn gofalu am Dad. Fe wyddon ni gyd y byddai clo'r gaeaf yn galed, yn her meddyliol, a chorfforol, mewn amryw ffyrdd. Mae unrhywbeth gwahanol yn syfrdanol o braf, a'r 'pethau bychain' yn gwneud gwahaniaeth mawr. O eira mis Ionawr, i 'rodd' bach annisgwyl, fel archeb gan gwmni Y Bwrdd.

Gyda'r bwytai i gyd ar gau – ag eithrio opsiynau têc-awê – mae na fusnesau lleol sy'n danfon cynnyrch bwyd diddorol yn syth i'ch cartre chi. Dwi eisioes wedi canmol gwasanaeth stondin bysgod Ashtons marchnad ganolog Caerdydd, ynghyd â'r cigydd JT Morgan a siop ffrwythau a llysiau Sullivans. A dros y flwyddyn ddiwethaf bu cryn alw am wasanaethau deli Curado, a becws Pettigrew, a chinio Sul o fwytai Tom Simmonds a Heaney's Pontcanna (i enwi ond rhai). Yn wir, roedd profi gwasanaeth y cwmnïau hyn yn dipyn o wefr yn ystod 2020. Ond a hithe'n 2021, dwi'n glustiau i gyd pan glywaf am fenter sy'n cynnig profiad amgenach fyth.




Beth yn union ydw i'n meddwl wrth hynny? Wel gyda chymaint o bobol wedi 'laru ar eu coginio eu hunain mae na 'fynd' ar brynu 'rhoddion' i chi eich hun, neu ar gyfer eich caredigion, 'yn meddwl amdanoch' yn ystod y pandemig. Profiadau bychain i godi'r galon, fel blodau tymhorol cwmni Tusw fy chwaer Catrin, neu brofiad bwyd gan gwmni arlwyo Y Bwrdd. Mae'n bosib i chi eisioes ddarllen fy nghyfweliad â'r actores Annes Elwy ar dudalennau 26 a 27 o'r *Dinesydd* ynglyn â'r union fenter hon. Wedi sgwrsio â hi, bu'n rhaid profi blas o arlwy eang Y Bwrdd, ac yn wir, dyma oedd un o uchafbwyntiau mis Ionawr i mi.

Awgrymodd Annes mai 'brecwast' Y Bwrdd oedd un o 'brofiadau' mwyaf poblogaidd ei menter hi, felly – serch fy amheuon – dyma fynd amdani. 'Amheuon' gyfeillion? Wel, i fod yn gwbl onest â chi, dwi'n hapus â phowlen o Bran Flakes ben bore cyn gwynebu diwrnod yn y 'swyddfa gartref'. Yna dros y penwythnos, yn dilyn sesiynau ffitrwydd amrywiol, fe af ati i baratoi gwledd llawn protîn i mi fy hun o afocado ac wyau ar dôst. Rhyngthoch chi a fi, dwi'n ddigon bodlon â hynny – wedi'r cyfan, beth mwy all dyn ei ddisgwyl mewn pandemig?!

Wel sôn am ddiffyg gweledigaeth truenus o'm rhan i parthed 'pryd bwyd pwysica'r dydd'! Allai'm pwysleisio pa mor gynhyrfus oedd derbyn 'hamper' brecwast Y Bwrdd, a laniodd ar fy stepen drws. Fel profiad roedd fel adlais o arhosiad mewn gwesty 5 seren – a da chi'n gw'bod yn union be dwi'n feddwl wrth hynny. Y math o le - rhwng y fwydlen brecwast *à la carte* a'r 'bwrdd bwffe' - sy'n rhaid pwyllo, ymchwilio iddo ac ymbaratoi'n feddyliol cyn profi epig o wledd 10 cwrs.

Ymysg y danteithion a grewyd gan Annes ei hun roedd granola sinamon a chardamom. Fel un sgut am Sgandinafia, fe nanfonwyd i ar wibdaith 'nôl i Ddenmarc gan y fath flasau, a gyflwynwyd nid â llaeth (fel yn achos fy bran-fflecs beunyddiol) ond compot afal a mwyar duon gwyllt – ffrwythau a bigwyd o ardd teulu Annes ym Mhenarth. Ardderchog! Yn 'ail-gwrs' cyflwynwyd torth swmpus o fara soda cartref, wnaeth f'atgoffa i o frecwastiau di-guro Dulun, fy ail hoff ddinas yn y byd (yn dilyn Caerdydd!). Ond gyfeillion, nid dim ond Menyn Sir Gâr a gyflwynwyd ar y cyd. Na yn wir. Ceuled oren lliw gwaed – *blood orange curd*, chwedl y Sais – a wnaed yn ffres gan ddefnyddio cynnyrch siop ffrwythau Windsor, Penarth, ac wyau gan gwmni Manda's ym mhentref Meisgyn. Ar ben popeth, pobwyd *Cookie* yn y dull Americanaidd a fwynheais, megis plentyn, â glasied o laeth! Cyffyrddiad bach annisgwyl o annwyl, rhaid i mi ddweud, wnaeth f'adfywio ganol p'nawn. Heb sôn am y rhosyn a osodwyd ar ben yr hamper megis cusan – neu goflaid – Santes Dwynwen! A coeliwch chi fi, mae'r pleser wedi para ymhell dros wythnos ers i mi dderbyn yr archeb wreiddiol. Mae'r bara soda yn gweddu i'r dim â marmalêd neu wy 'di'i ferwi - heb sôn am y jar mawr o rawnfwyd *crunch* gwahanol i'r arfer.

Pwy feddylie y gallwn wirioni dros ddetholiad o ddanteithion ben bore? Sut alla i wynebu powlen o bran-fflêcs wedi gloddest o'r fath?! Mae'r cynnyrch o ansawdd, yn lleol a thymhorol, a'r pecynnu yn hynod gynaladwy. Bydd rhaid dwys ystyried bwydlen ehangach Y Bwrdd, megis y 'Brecwast Ffermdy' ar gyfer y tro nesa. Neu beth am brofiad te prynhawn neu swper bistro ar gyfer mis Chwefror? Gyfeillion, mae'r dewis yn ddi-ddiwedd. Tybed pa sawrus-wibdeithiau y caf fwynhau gyda'r blasau nesa? Ac yn bwysicach na dim - pwy gaiff anrheg Y Bwrdd ganddoch chi?

**Y Bwrdd: bwrddannes@gmail.com**
**@y_bwrdd ar instagram**